# Asesiad Perfformiad Blynyddol
## 2018-19









Cydweithio Integreiddio Cynnwys Hirdymor Atal

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

## GWNEUD GOGLEDD CYMRU YN ARDAL FWY DIOGEL I FYW YNDDI, I WEITHIO YNDDI AC I YMWELD Â HI



**Y Cyng. Peter Lewis**
**Cadeirydd**



**Simon Smith**
**Prif Swyddog Tân**

Croeso i adroddiad cynnydd a hunanasesiad Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar gyfer 2018/19.

Ym mis Mawrth 2018, fe wnaeth yr Awdurdod gyhoeddi Cynllun Gwella a Llesiant 2018/19, a oedd yn cadarnhau ei amcanion strategol tymor hir ac yn esbonio beth roedd yn bwriadu ei wneud yn ystod y flwyddyn tuag at gyflawni'r amcanion hynny. Rydym yn falch o ddweud ein bod ni wedi gwneud cynnydd da y llynedd er gwaethaf rhai heriau difrifol, gan gynnwys cynnydd sydyn yn nifer y tanau yn yr awyr agored y cawsom ein galw atynt yn ystod yr haf eithriadol o boeth a sych.

Roeddem yn arbennig o falch ein bod wedi parhau â'n hymrwymiad i waith ataliol ac i ostwng niferoedd y tanau damweiniol mewn cartrefi oherwydd roedd hynny wedi golygu bod y nifer wedi gostwng eto y llynedd, a hynny i'r nifer isaf a gofnodwyd erioed yng Ngogledd Cymru. Fodd bynnag, nid ydym yn bwriadu bod yn hunanfodlon, ac mae ein sylw yn parhau i fod ar addysgu a helpu pobl i aros yn ddiogel rhag tân.

Gobeithio y byddwch yn gweld ein cyfrif o'r flwyddyn yn un difyr a llawn gwybodaeth. Rydym wedi rhoi mwy o bwyslais yn yr adroddiad eleni ar gynnwys enghreifftiau go iawn o sut rydym wedi gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl, ond byddem yn falch iawn o gael eich adborth ar ffyrdd o wella hyd yn oed fwy ar ein hadroddiadau yn y dyfodol. Os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau o welliannau, byddem yn eich annog i'w rhannu gyda ni. Mae ein manylion cyswllt ar gael ar dudalen 55.

## CYNNWYS



| | |
|---|---|
| **Byw yng Ngogledd Cymru** | **5** |
| **Gair am Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** | **10** |
| **Y gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod** | **12** |
| **Y gofynion cyfreithiol ar gyfer adrodd** | **13** |
| **Cynnydd mewn perthynas â'r Amcanion Gwella a Llesiant** | **15** |
| **Monitro cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg** | **29** |
| **Cynnydd mewn perthynas â'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol** | **32** |
| **Sut mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cymharu?** | **35** |
| **Crynodeb o Wybodaeth am Berfformiad** | **43** |
| **Y Siarter Ymateb i Danau mewn Anheddau yn 2018/19** | **44** |
| **Beth mae pobl eraill wedi'i ddweud amdanom** | **49** |
| **Gwybodaeth arall** | **50** |
| **Geirfa/Diffiniadau** | **53** |
| **Fersiynau eraill, a sut i gysylltu â ni** | **55** |

# BYW YNG NGOGLEDD CYMRU

**Demograffeg Gogledd Cymru**
Mae Gogledd Cymru yn gartref i ryw 696,000 o bobl, ac mae miliynau yn fwy yn ymweld â'r ardal bob blwyddyn am resymau gwaith a hamdden.

Mae'r proffil demograffig ar gyfer y rhanbarth yn y dyfodol yn rhagweld y bydd y boblogaeth breswyl wedi cynyddu i 729,100 erbyn 2030. Gellir esbonio poblogaeth gynyddol Gogledd Cymru drwy gynnydd yn y gyfradd genedigaethau a gostyngiad yn y gyfradd farwolaethau, ac mae hynny wedi arwain at ddisgwyliad oes uwch. Hefyd, mae disgwyl i ganran y boblogaeth 65 oed a hŷn gynyddu 26%, ac mae disgwyl i nifer y bobl 85 oed a hŷn gynyddu 80%.

**POBLOGAETH (amcangyfrifon canol blwyddyn 2018)**





Mae 22% o holl boblpgaeth Cymru yn byw yng Ngogledd Cymru

| | |
|---|---:|
| Ynys Môn | 69,794 |
| Conwy | 116,863 |
| Sir Ddinbych | 95,159 |
| Sir y Fflint | 155,155 |
| Gwynedd | 123,742 |
| Wrecsam | 135,571 |
| Gogledd Cymru | 696,284 |
| Cymru | 3,125,165 |

Cyf: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Estimates/Local-Authority/populationestimates-by-localauthority-year

Mae'r dwysedd poblogaeth yn parhau i fod uchaf yn Sir y Fflint a Wrecsam, a Gwynedd yw un o'r rhai lleiaf poblog.

**DWYSEDD POBLOGAETH (31 Mawrth 2019)**





| | |
|---|---:|
| Ynys Môn | 98 bobl am bob Km$^2$ |
| Conwy | 104 bobl am bob Km$^2$ |
| Sir Ddinbych | 114 bobl am bob Km$^2$ |
| Sir y Fflint | 355 bobl am bob Km$^2$ |
| Gwynedd | 49 bobl am bob Km$^2$ |
| Wrecsam | 270 bobl am bob Km$^2$ |
| Gogledd Cymru | |
| Cymru | 151 bobl am bob Km$^2$ |

Cyf: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Density/populationdensity-by-localauthority-year

Yng Nghymru, mae 95.6% o'r boblogaeth yn disgrifio eu grŵp ethnig fel Gwyn. Mae hyn yn amrywio rhwng y rhanbarthau, o 97.8% o'r boblogaeth yng Ngogledd Cymru, i 94.3% yn Ne-ddwyrain Cymru.

**ETHNIGRWYDD**




Pobl sy'n dweud eu bod o gefndir gwyn


Pobl sy'n dweud eu bod o gefndir nad yw'n wyn

| | |
|---|---|
| Ynys Môn | 0.8% |
| Conwy | 1.8% |
| Sir Ddinbych | 3.2% |
| Sir y Fflint | 1.8% |
| Gwynedd | 2.4% |
| Wrecsam | 2.7% |
| Gogledd Cymru | 2.2% |
| Cymru | 5.0% |

Cyf: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Equality-and-Diversity/Ethnicity/ethnicity-by-area-ethnicgroup

Yn ôl Cyfrifiad 2011, roedd tua 562,000 o bobl dros 3 yng Nghymru yn gallu siarad Cymraeg. Yng Ngogledd Cymru, mae hyn tua 29.4% o'r boblogaeth, o'i gymharu â thua 18% yng Nghymru gyfan. O'r bobl sy'n byw yng Nghymru ac yn gallu siarad Cymraeg, mae 36.4% ohonynt yn byw yng Ngogledd Cymru.

**SIARADWYR CYMRAEG (cyfrifiad 2011)**





Mae 36.4% o siaradwyr Cymraeg yn byw yng Ngogledd Cymru

| | |
|---|---|
| Ynys Môn | 38,568 |
| Conwy | 30,600 |
| Sir Ddinbych | 22,236 |
| Sir y Fflint | 19,343 |
| Gwynedd | 77,000 |
| Wrecsam | 16,659 |
| Gogledd Cymru | 204,406 |
| Cymru | 562,016 |

Cyf: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Welsh-Language/Census-Welsh-Language/welshspeakers-by-la-broaderage-2001and2011census

Yn ôl data a gasglwyd fel rhan o'r Arolwg Blynyddol o Boblogaeth, roedd un rhan o bump o'r boblogaeth rhwng 16 a 64 oed, yn byw yng Nghymru, ym mis Mawrth 2013, yn dweud eu bod yn anabl. Mae cyfran uwch o ferched na dynion yn dweud eu bod yn anabl (23.0% o'i gymharu â 18.8%).

**POBL AG ANABLEDD (31 Mawrth 2013)**





Mae 22.7% o'r bobl sy'n dweud eu bod yn anabl yn byw yng Ngogledd Cymru

| | |
|---|---|
| Ynys Môn | 30,700 |
| Conwy | 49,400 |
| Sir Ddinbych | 39,400 |
| Sir y Fflint | 74,600 |
| Gwynedd | 57,900 |
| Wrecsam | 66,600 |
| Gogledd Cymru | 318,600 |
| Cymru | 1,401,900 |

Cyf: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Equality-and-Diversity/Disability/peopleofworkingagewithdisabilities-by-area-disabilitytype

Ar sail yr amcangyfrifon diweddaraf sydd ar gael, mae tua 326,700 o gartrefi yng Ngogledd Cymru, ac mae 15% (49,479) ohonynt wedi'u cofnodi'n stoc tai cymdeithasol sydd gan awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol.

**STOC TAI CYMDEITHASOL (2018/19):**





**Dadansoddiad % o dai cymdeithasol fesul Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cynmru**

| | |
|---|---|
| Ynys Môn | 4,920 |
| Conwy | 8,792 |
| Sir Ddinbych | 6,345 |
| Sir y Fflint | 5,809 |
| Gwynedd | 10,185 |
| Wrecsam | 13,428 |
| Gogledd Cymru | 49,479 |
| Cymru | 231,413 |

Cyf:https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Social-Housing-Stock-and-Rents/totalsocialhousingstock-by-area-providertype

Yng Nghymru, mae rhwng 11% ac 19% o aelwydydd wedi'u cofnodi fel rhai sy'n byw mewn tlodi materol. Yng Ngogledd Cymru, Ynys Môn sydd â'r gyfran fwyaf o aelwydydd mewn tlodi materol, a Chonwy sydd â'r gyfran leiaf.

**AMDDIFADEDD MATEROL FESUL AWDURDOD LLEOL (2017/18):**




| | |
|---|---|
| Ynys Môn | 19% |
| Conwy | 11% |
| Sir Ddinbych | 14% |
| Sir y Fflint | 13% |
| Gwynedd | 15% |
| Wrecsam | 14% |
| | |
| Cymru | 16% |

Cyf: https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-02/arolwg-cenedlaethol-cymru-2017-18-tlodi-amddifadedd.pd

Mae canran y bobl sy'n byw ar eu pen eu hunain wedi cynyddu mewn 5 o'r 6 ardal awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru, sy'n wahanol i Gymru gyfan lle cafwyd gostyngiad cyffredinol yng nghanran y bobl sy'n byw ar eu pen eu hunain.

**AMCANGYFRIFON TAI (canol 2017 a canol 2008)**


| | % y cartrefi ag 1 person (dim plant) | | % y cartrefi ag 1 neu fwy o blant | | % y cartrefi ag 1 oedolyn ac 1+ o blant | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2008 | 2017 | 2008 | 2017 | 2008 | 2017 |
| Ynys Môn | 31.5% | 33.7% | 26.1% | 24.1% | 5.6% | 5.0% |
| Conwy | 33.4% | 34.5% | 25.1% | 23.3% | 5.6% | 5.5% |
| Sir Ddinbych | 31.6% | 31.3% | 27.5% | 26.2% | 6.1% | 6.2% |
| Sir y Fflint | 27.1% | 28.2% | 30.2% | 28.6% | 6.1% | 6.4% |
| Gwynedd | 34.6% | 36.7% | 25.3% | 23.3% | 5.3% | 5.0% |
| Wrecsam | 29.3% | 30.5% | 29.8% | 29.2% | 6.3% | 7.1% |
| Cymru | 31.8% | 30.2% | 26.9% | 28.7% | 6.8% | 6.7% |

Cyf: https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2018-12/180927-household-estimates-mid-2017-en_0.pdf

**Seilwaith Trafnidiaeth yng Ngogledd Cymru**

Yn 2017, fe wnaeth partneriaeth rhwng chwe awdurdod cyfansoddol Gogledd Cymru, partneriaid busnes, colegau a phrifysgolion, fynd ati'n ffurfiol i lansio Bargen Twf y Gogledd. Bydd y cynigion yn gweld buddsoddiad o £1.3biliwn yn economi Gogledd Cymru, a bydd yn ceisio creu 5,500 o swyddi a dod â £671m o fuddsoddiad i'r rhanbarth[1].

Un o themâu allweddol Bargen Twf y Gogledd yw cysylltedd gwell, gyda galwad am well amseroedd teithio ar y ffyrdd a'r rheilffyrdd. Yn ôl y cynnig, drwy foderneiddio trafnidiaeth yng Ngogledd Cymru gellir cael y llwyfan cywir i ddarparu datblygiad economaidd cynaliadwy, cysylltu pobl, cymunedau a busnes gyda chyflogaeth, gwasanaethau, cyfleusterau a marchnadoedd drwy seilwaith dibynadwy a chadarn. Bydd hefyd yn cefnogi dull integredig o ddarparu'r newid i gymdeithas â llai o garbon sy'n wydn i'r hinsawdd.




Mae seilwaith trafnidiaeth Gogledd Cymru yn cynnwys porthladd a phorthladd fferi ac 1 o'r 2 faes awyr yng Nghymru. Caergybi yw'r porthladd mwyaf pwysig yng Nghymru yn ôl cyfaint nwyddau, a dyma'r prif borthladd ar gyfer cludiant nwyddau a theithwyr môr rhwng y DU ac Iwerddon.

Mae ffordd gyflym yr A55 yn mynd 87 miltir rhwng porthladd fferi Caergybi, drwy awdurdodau lleol Ynys Môn, gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych a Sir y Fflint cyn croesi'r ffin i Loegr a diweddu yng Nghaer. Roedd dwy ran i'r A55 â chyflymderau cyfartalog yn is na 30 mya. Mae'r adrannau hyn yng Nghaergybi ac o gwmpas Pont Britannia[2].

Nid oes dim traffyrdd yng Ngogledd Cymru, ond mae dros 8,200 Km o ffyrdd yn cael eu categoreiddio'n ffyrdd B ac C ac is-ffyrdd â wyneb caled.

---


[1] https://northwaleseab.co.uk/cy/adnoddau/cais-twf-gogledd-cymru

[2] https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-08/ystadegau-cryno-ar-gyfer-rhanbarthau-economaidd-cymru-gogledd-cymru.pdf

| **HYD Y FFYRDD (Km):** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cefn Gwlad A | Cefnffordd A | Ffordd B | Ffordd C | Is-ffordd â wyneb caled | Cyfanswm Hyd y Ffyrdd |
| Ynys Môn | 145.5 | 36.4 | 122.5 | 361.9 | 558.0 | 1,224.3 |
| Conwy | 117.0 | 123.9 | 173.0 | 487.6 | 787.2 | 1,688.7 |
| Sir Ddinbych | 139.8 | 72.1 | 133.7 | 521.6 | 623.4 | 1,490.6 |
| Sir y Fflint | 152.0 | 47.7 | 78.1 | 262.4 | 682.3 | 1,222.5 |
| Gwynedd | 330.5 | 216.6 | 203.9 | 861.0 | 1321.7 | 2,933.7 |
| Wrecsam | 110.0 | 30.7 | 142.5 | 370.5 | 518.9 | 1,172.6 |
| Gogledd Cymru | 994.80 | 527.4 | 853.7 | 2,865.0 | 4,491.5 | 9,732.4 |
| Cymru | 2,772.9 | 1,575.6 | 3,022.8 | 9838.2 | 17,509.1 | 34,718.8 |
| Cyf: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Transport/Roads/Lengths-and-Conditions/roadlength-by-typeofroad-localauthority-year | | | | | | |

**Amgylchedd Gogledd Cymru**

Mae'r Gogarth, Arfordir Gogledd Ynys Môn, Mynydd Caergybi, Bae Aberffraw ac Arfordir Llŷn i gyd wedi'u dynodi'n Arfordiroedd Treftadaeth er mwyn eu diogelu rhag datblygiadau ansensitif[3].





Mae'r rhanbarth hefyd yn gartref i nifer o Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig megis Migneint-Arenig-Dduallt; Craig yr Aderyn; Arfordir Aberdaron ac Ynys Enlli; Arfordir Ynys Cybi ac Ynys Seiriol. Mae'r rhain yn diogelu rhywogaethau adar sydd naill a'i brin neu'n fregus, neu sydd, yn achos adar mudo, yn ymweld yn rheolaidd â glannau Cymru.

[3] https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-08/ystadegau-cryno-ar-gyfer-rhanbarthau-economaidd-cymru-gogledd-cymru.pdf

# GAIR AM AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gwasanaethu cymunedau Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint ac Wrecsam. Mae'r chwe awdurdod lleol yn cyfrannu'n ariannol i gyllideb flynyddol yr Awdurdod Tân ac Achub Cyfun, ac maent yn enwebu cynghorwyr sir – 28 i gyd – i wasanaethu fel Aelodau o'r Awdurdod Tân ac Achub sydd â chyfansoddiad ffurfiol a chyfrifoldeb i gyflawni ei wahanol ddyletswyddau statudol. Mae'r darnau allweddol o ddeddfwriaeth sy'n diffinio pwerau a dyletswyddau'r Awdurdod i'w gweld yn y rhestr ar dudalennau 49-50.

Y Prif Swyddog Tân sydd â'r cyfrifoldeb gweithredol dros redeg y Gwasanaeth Tân ac Achub, ac mae'n darparu arweiniad strategol, yn rheoli cydlyniant cyffredinol gweithgareddau'r Gwasanaeth, ac yn gwneud y gorau o'r adnoddau. Mae'r Prif Swyddog Tân hefyd yn darparu cyngor proffesiynol i'r Awdurdod.



**Asedau'r Awdurdod (fel yr oedd pethau ar 31 Mawrth 2019):**





## Atal Tanau

Y ffordd fwyaf effeithiol o arbed bywydau, lleihau anafiadau a lleihau'r effaith ar y gymuned ehangach yw gostwng nifer y digwyddiadau. I wneud hyn, mae'r Awdurdod yn gweithio'n agos gyda sefydliadau sy'n bartneriaid iddo a gyda chymunedau i ddatblygu a chyflwyno mentrau sydd â'r nod o atal argyfyngau. Mae'r Gwasanaeth yn cyflogi:

- Gweithwyr Cymorth Diogelwch yn y Cartref i gael cysylltiad â phobl a allai fod mewn mwy o berygl o dân yn y cartref er mwyn rhoi gwybodaeth, addysg a lle bo angen i ddarparu mesurau amddiffynol ychwanegol; ac
- Arolygwyr Diogelwch Tân i roi cyngor am ddim i reolwyr eiddo annomestig i gefnogi cydymffurfiaeth â deddfwriaeth diogelwch tân a hefyd i weithredu pan fo angen er mwyn cyfyngu neu wahardd y defnydd o safleoedd o'r fath ac i erlyn os oes achosion difrifol o dorri'r ddeddfwriaeth.

**Staffio (fel yr oedd pethau ar 31 Mawrth 2019)**




*Oherwydd natur 'ar alwad' y swyddi hyn, maent yn cael eu cyfrifo fel 'unedau o ofal 24 awr' yn hytrach na'r hyn sy'n cyfateb i lawn amser.

## Y GWASANAETHAU A DDARPERIR GAN YR AWDURDOD

Mae dyletswydd gyfreithiol ar yr Awdurdod i ddarparu gwasanaeth tân ac achub sy'n diwallu anghenion cymunedau lleol. Rhaid i'r Awdurdod fod yn barod i ddelio ag amrywiaeth eang o argyfyngau, o danau mewn tai a gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd i lifogydd a gollyngiadau cemegol. Rhaid iddo hefyd wneud gwaith atal tân i helpu i gadw pobl ac eiddo yn ddiogel rhag tân.




**ATAL TANAU:** Rhaid i awdurdodau tân ac achub drefnu i hybu diogelwch tân yn eu hardaloedd. Mae hyn yn cynnwys rhoi gwybod i bobl am atal tanau a dweud wrthynt am y ffordd orau o ymateb os oes tân yn digwydd.

**GORFODI DIOGELWCH TÂN:** Mae dyletswydd ar awdurdodau tân ac achub i orfodi diogelwch tân ar safleoedd annomestig (gwestai, ysoglion, siopao a swyddfeydd ac ati). Mae'r ddyletswydd yn cynnwys arfer pwerau i roi hysbysiadau addasu, hysbysiadau gorfodi a hyd yn oed hysbysiadau gwahardd os ydynt yn gweld bod y trefniadau diogelwch tân yn anfoddhaol.

**YMATEB BRYS:** Rhaid i awdurdodau tân ac achub wneud trefniadau ar gyfer derbyn galwadau 999 ac ar gyfer anfon staff hyfforddedig gyda'r offer cywir i ddiffodd tanau ac i amddiffyn bywyd ac eiddo yn y tanau hynny. Rhaid iddynt hefyd wneud trefniadau i achub pobl mewn gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd ac ar gyfer eu hamddiffyn rhag niwed difrifol. Yn Ebrill 2017, fe wnaeth Llywodraeth Cymru greu dyletswydd statudol i ymateb i lifogydd neu ddigwyddiadau achub o ddŵr sy'n bygwth bywyd.


**ATEB I ARGYFYNGAU ERAILL:** Rhaid i awdurdodau tân ac achub wneud dihalogi pobl ar raddfa fawr ar ôl digwyddiadau cemegol, biolegol neu yfer achub pobl o drenau, awyrennau ac adeiladau sydd wedi dymchwel. fod yn barod i gynorthwyo gydag argyfyngau mawr mewn rhannau eraill

Mae'r Gwasanaeth hefyd wedi ymrwymo i gael cysylltiadau agos â sefydliadau eraill i wella diogelwch y gymuned, gan gynnwys darparu amrywiaeth eang o raglenni addysgol. Mae'r Gwasanaeth yn helpu i gefnogi a dangos y ffordd at gymorth i bobl sy'n agored i risgiau nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â'r gwasanaeth tân, megis pobl hŷn a allai fod mewn perygl oherwydd tywydd garw, cartrefi sydd mewn perygl o droseddau, neu bobl sydd mewn perygl o drais domestig.

Uwch Reolwr Diogelwch Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yw cadeirydd Grŵp Plant a Phobl Ifanc Cymru gyfan, ac mae hefyd ar Gyngor y Prif Swyddogion Tân a'r Grŵp Pobl Ifanc.

# Y GOFYNION CYFREITHIOL AR GYFER ADRODD

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Ei nod yw gwneud i gyrff cyhoeddus feddwl am y nodau tymor hir, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ceisio atal problemau a chael dull mwy cydgysylltiedig[4]. Mae'r Ddeddf yn mynnu bod yr Awdurdod yn gosod ac yn cyhoeddi amcanion llesiant. Mae'r amcanion tymor hir yn newidiadau y mae'r Awdurdod eisiau eu creu yng Ngogledd Cymru i gyfrannu at wella llesiant yr ardal ac i symud Cymru yn nes at gyflawni ei nodau llesiant.




Ar ôl adnabod yr amcanion tymor hir hyn, mae dyletswydd ar yr Awdurdod i gymryd pob cam rhesymol i fynd ynglŷn â nhw yn unol â'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio, ac i adrodd yn gyhoeddus ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol ynghylch y cynnydd a wnaeth.

Pum ffordd o weithio:


Cael cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr ac anghenion tymor hir


Atal problemau rhag digwydd neu rhag gwaethygu


Cael dull integredig, sy'n sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol


Cofio amrywiaeth gyfoethog pobl yng Ngogledd Cymru, a'u hannog i gymryd rhan yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt


Gweithio ar y cyd i gyflawni'r amcanion llesiant

[4] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 - Yr Hanfodion https://futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2017/01/wfg-essentials-guide-cy.pdf

Mae'r Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru wedi'u categoreiddio hefyd yn 'Awdurdodau Gwella Cymreig' ac maent yn agored i ofynion Mesur Llywodraeth Leol 2009 o ran dilyn proses flynyddol o osod a chyflawni amcanion gwella lleol.

Mae'r adran hon yn cyflwyno Amcanion Gwella a Llesiant cyfunol yr Awdurdod ar gyfer 2018/19, esboniad cryno i ddweud pam cafodd pob un ei fabwysiadu, a'r camau a'r gweithredoedd i'w cyflawni. Rhaid i'r Awdurdod gyhoeddi'r asesiad hwn o'i berfformiad ei hun yn 2018/19 ynghyd â dangosyddion perfformiad statudol ar gyfer yr un flwyddyn erbyn 31 Hydref 2019.

**Deddf Cydraddoldeb 2010**

Deddf Cydraddoldeb 2010

Roedd Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cyfuno gwahanol ddarnau o ddeddfwriaeth cydraddoldeb, gan gydgordio a chryfhau'r ddeddfwriaeth cydraddoldeb o fewn un Ddeddf. Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswydd cydraddoldeb ar gyfer y sector cyhoeddus, sy'n mynnu bod cyrff y sector cyhoeddus, wrth gyflawni eu swyddogaethau, yn talu sylw dyledus i'r angen i wneud y canlynol:

- dileu gwahaniaethu, aflonyddu, fictimeiddio ac unrhyw ymddygiad arall sy'n cael ei wahardd gan neu dan y Ddeddf;
- hybu cyfle cyfartal rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu;
- meithrin perthnasoedd da rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu.

**Safonau Iaith Gymraeg 2016**

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Fe gyflwynodd Comisiynydd y Gymraeg Hysbysiad Cydymffurfio i'r awdurdodau tân ac achub ar 30 Medi 2016. Mae'r ddogfen yn rhestru'r Safonau (fel yn y rhestr lawn yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5) 2016) y mae'n rhaid i'r sefydliad gydymffurfio â nhw, ynghyd ag unrhyw eithriadau a dyddiadau gweithredu.

# CYNNYDD MEWN PERTHYNAS Â'R AMCANION GWELLA A LLESIANT



**Amcan Gwella a Llesiant A:** Cefnogi pobl i atal tanau damweiniol mewn cartrefi a bod yn ddiogel os bydd tanau'n digwydd



**Cam tuag at gyflawni'r amcan llesiant:** Cyflwyno rhaglen gynhwysfawr o waith ataliol gyda'r nod o helpu i gadw pobl a chymunedau yn ddiogel rhag tanau damweiniol mewn cartrefi.



**Yr hyn yr oeddem yn bwriadu ei gyflawni yn 2018/19:** Ehangu'r Archwiliadau Diogelwch yn y Cartref a gynhelir ar hyn o bryd I gynnwys negeseuon ychwanegol am ddiogelwch, tra hefyd yn cynnal safon y gwaith ac yn rhoi enw newydd arnynt, sef Archwiliadau Diogel ac Iach.

Mae 'Archwiliadau Diogel ac Iach' yn ymgorffori negeseuon traddodiadol diogelwch tân (sy'n cynnwys gosod larymau tân) ond hefyd yn cynnwys cyngor ar faterion iechyd a lles yn ymwneud â rhoi'r gorau i ysmygu, atal llithro, baglu a chodwm, yn ogystal ag asesu achosion o orgasglu ac atgyfeirio i asiantaethau cefnogol os oes angen. Mae'r Archwiliadau'n cael eu cynnal gan staff arbenigol o'r gwasanaeth tân ac achub sydd wedi cael eu hyfforddi i roi cymorth i bobl a allai fod wedi cael profiadau niweidiol mewn plentyndod, problemau iechyd meddwl neu sydd ag arwyddion o broblemau eraill. Hefyd, mae'r staff yn rhoi cyngor cyffredinol ar iechyd a ffitrwydd.

Mae Archwiliadau Diogel ac Iach yn cael eu cynnig i drigolion yn rhad ac am ddim, yn y ddwy iaith, ac maent yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Maent wedi cael eu cynllunio'n gyfannol i leihau'r risg o niwed oherwydd tân, gan gwmpasu materion ehangach sy'n effeithio ar ddiogelwch pobl yn eu cartrefi. Lle bynnag y bo modd, mae'r Archwiliadau Diogel ac Iach yn dilyn y dull a amlinellir yn y diagram isod:




Gelwir y staff arbenigol yn 'Weithwyr Cymorth Diogelwch yn y Cartref', ac maent yn cael hyfforddiant rheolaidd i sicrhau cysondeb yn y ffordd mae'r Archwiliadau Diogel ac Iach yn cael eu cyflwyno. Cynhelir digwyddiadau gloywi yn aml, er mwyn cofnodi'r hyn a ddysgir o brofiadau'r tîm. Caiff enghreifftiau o arferion da eu rhannu, gan gynnwys adegau pryd mae'r Gweithwyr Cymorth Diogelwch yn y Cartref wedi mynychu digwyddiadau eithriadol wrth gyflawni eu dyletswyddau.

**Stori un o ddefnyddwyr y gwasanaeth - Bryn[5]**

Fe wnaeth ymgyrch diogelwch cymunedol ar gyfer ardaloedd yng Nghonwy a Sir Ddinbych arwain at ymweliad â chartref lle cymerwyd camau i leihau'r perygl o dân a gwella ansawdd bywyd i un o drigolion Gogledd Cymru, sef Bryn.

Cafodd yr ymgyrch ei chynnal ar y cyd â chymdeithas dai leol, Cartrefi Conwy, ac roedd yn canolbwynio ar bobl a oedd yn byw yn eu hadeiladau nhw. Dosbarthwyd taflenni yn lleol, ac ymwelwyd â siopau, ysgolion, llyfrgelloedd a chanolfannau cymunedol yn yr ardal i hyrwyddo ymgyrch 'Diogel ac Iach' ynghyd â chynnig Archwiliad Diogel ac Iach am ddim.

Yn ystod yr ymgyrch, fe wnaeth cymdogion pryderus dynnu sylw at eiddo a dweud wrthym fod Bryn yn ysmygu'n drwm a bod ffactorau eraill yn golygu ei fod mewn mwy o berygl o dân yn ei gartref.

Gyda Bryn yn cydsynio, cafodd Archwiliad Diogel ac Iach ei gynnal yn ei gartref. Yn ystod ein hymweliad, gwelsom fod Bryn yn defnyddio eitemau'r cartref fel blwch llwch, ac roedd arwyddion llosgi a rhuddo o ganlyniad i bethau ysmygu wedi'u taflu yn ei ystafell wely. Roedd tystiolaeth hefyd o ffordd o fyw nad oedd yn iach, o afiechyd a phroblemau ariannol.

O ganlyniad i'n hymweliad, a gyda Bryn yn cytuno, fe wnaethom ni roi'r ymyriadau canlynol ar waith:

- Darparu pecyn gwely ar gyfer ysmygwyr, sy'n cynnwys dillad gwely o ddeunydd gwrth-dân
- Darparu blwch llwch go iawn (gan fod platiau papur a phethau fflamadwy eraill yn cael eu defnyddio fel blwch llwch)
- Profi'r larwm mwg a'r larwm gwres yn yr eiddo
- Gosod larwm mwg yn yr ystafell wely
- Dangos y ffordd at swyddog cynhwysiant ariannol ac asiantaethau cymorth eraill
- Trafod cymorth eraill gyda'r swyddog cymorth tai o Gartrefi Conwy
- Cynghori Bryn ar strategaeth y Gwasanaeth Iechyd ar gyfer iechyd y cyhoedd, sef 'gwneud i bob cyswllt gyfrif' a rhoi arweiniad ar ddiogelwch yn y cartref.

Mae'r astudiaeth achos hon yn dangos sut mae'r ymyriad wedi lleihau'r perygl o dân yn y cartref, ynghyd â dangos sut roedd yr Awdurdod wedi gallu rhoi rhagor o gymorth a chyngor i'r preswylydd. Arweiniodd hyn at atgyfeirio at asiantaethau eraill a oedd yn gallu rhoi cymorth i'r preswylydd wneud dewisiadau gwybodus am ei ffordd o fyw a'i lesiant.

[5] Rydym wedi newid yr enw i warchod preifatrwydd yr unigolyn



**Yr hyn yr oeddem yn bwriadu ei gyflawni yn 2018/19:**

Cynnal 20,000 o Archwiliadau Diogel ac Iach, gydag o leiaf 25% o’r rheini i gartrefi y mae asiantaeth arall wedi ei hatgyfeirio at y Gwasanaeth.

Yn 2018/19, fe wnaeth y Gwasanaeth gynnal 20,651 o Archwiliadau Diogel ac Iach, ac roedd 5,752 (27.9%) o’r rheini i gartrefi a gafodd eu hatgyfeirio i ni gan asiantaethau sy’n bartneriaid i ni. Yn aml, mae’r atgyfeiriadau’n digwydd fel rhan o becyn cymorth ehangach i aelodau mwyaf bregus y gymuned. Yn ogystal â gwneud atgyfeiriadau, mae staff hyfforddedig o asiantaethau sy’n bartneriaid i ni wedi cynnal 394 o Archwiliadau Diogel ac Iach eu hunain, ar ran yr Awdurdod.

O’r 20,651 o Archwiliadau Diogel ac Iach a gafodd eu cynnal, roedd 7,878 yn atgyfeiriadau risg isel, 6,401 yn rhai risg canolig, a 6,372 yn rhai risg uchel, a chawsant eu blaenoriaethu yn unol â hynny.

**Rhoi rhywbeth yn ôl dros gyfnod yr ŵyl**

Yn ystod Rhagfyr 2018, cafodd nifer o fentrau eu cynnal i gefnogi trigolion dros gyfnod yr ŵyl.

Cafodd amrywiaeth o grwpiau lleol o ardal Dolgellau eu gwahodd i’r orsaf dân i gael cinio Nadolig, wedi’i ariannu gan fusnesau o’r ardal a oedd yn awyddus i gefnogi’r Awdurdod i gysylltu â’r gymuned leol.




Cafodd pawb yno gyfle i ddysgu mwy am fod yn ddiogel yn eu cartrefi, yn ogystal â mwynhau cwmni pobl eraill ar adeg o’r flwyddyn sy’n gallu bod yn anodd i lawer o bobl.



**Yr hyn yr oeddem yn bwriadu ei gyflawni yn 2018/19:**

Parhau i ddatblygu Strategaeth Diogelwch Tân sy’n ymgorffori dulliau gwerthuso cadarn i bennu beth yw effaith a pha mor effeithiol yw’r negeseuon a’r ymgyrchoedd diogelwch presennol.

Mae gwaith ataliol yn canolbwyntio ar leihau risgiau er mwyn arbed bywydau ac atal anafiadau drwy ddarparu addysg am ddiogelwch, a hynny ochr yn ochr ag ymyriadau cadarnhaol sy’n helpu i wneud Gogledd Cymru yn ardal ddiogel i fyw ynddi, i weithio ynddi ac i ymweld â hi.

Mae’r Awdurdod wedi integreiddio ei weithgareddau ataliol cymaint â phosibl yng ngwaith sefydliadau ac asiantaeth eraill sydd hefyd yn rhoi sylw i ddiogelwch cymunedol. Yn hytrach na chynnal ei ddadansoddiad risg ynysig eu hun, mae’r Awdurdod yn cydnabod bod manteision i ganfod a lliniaru risgiau ar y cyd. Drwy weithio gyda phartneriaid, mae’r Awdurdod yn gallu canfod pobl sydd â’r risg mwyaf o dân a pheryglon eraill, a darparu Archwiliadau Diogel ac Iach wedi’u targedu er mwyn helpu i newid ymddygiad a gostwng nifer y tanau damweiniol.

Mae staff o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, ynghyd â staff o sefydliadau partneriaethol eraill, yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd o’r Grŵp Llywio Ymgyrchoedd er mwyn cytuno ar negeseuon diogelwch a gweithgareddau ymgyrchoedd a’u cysoni â strategaethau ymgyrchoedd lleol a chenedlaethol. Pwrpas hyn yw sicrhau bod yr Awdurdod yn cyflawni ei weithgareddau ataliol mor effeithlon ac effeithiol ag y bo modd. Gweler y diagram isod:

Rhoddir ystyriaeth hefyd i wybodaeth a gafwyd o ddigwyddiadau nodedig a thueddiadau lleol. Mae’r dull cyfun hwn yn sicrhau bod negeseuon diogelwch yn cael targedu a’u bod yn ceisio newid ymddygiad pobl i leihau risgiau. Mae’r Grŵp lleol ar gyfer Llywio Ymgyrchoedd yn sicrhau bod y negeseuon cywir yn cael eu rhoi ar yr adeg gywir o’r flwyddyn er mwyn sicrhau eu bod mor effeithiol â phosibl.




Yn ystod 2018/19, aeth yr Awdurdod at nifer o ddigwyddiadau tân difrifol lle roedd rhaid cynnal ymchwiliadau. Yn ystod yr ymchwiliadau, cafodd cyfweliadau eu cynnal gyda theulu, ffrindiau, cymdogion ac asiantaethau eraill ac ati, ac ymhob achos darganfuwyd bod ffactorau risg yn bresennol cyn y digwyddiad tân felly roedd y bobl yno mewn mwy o berygl o niwed.

Fe wnaeth y broses werthuso ar gyfer yr ymgyrch Peiriannau Gwyn ar gyfer Cymru gyfan ddefnyddio dulliau mwy cymysg. Roedd rhan o’r gwerthusiad yn cynnwys edrych ar ymatebion i holiaduron a arolygon barn, ynghyd â sylw ar y cyfryngau ac yn y wasg. Roedd holiaduron a gafodd eu llenwi gan aelodau o’r cyhoedd hefyd wedi rhoi adborth gwerthfawr.




Drwy’r dulliau gwerthuso hyn, roedd yn bosibl asesu pa agweddau o’r ymgyrchoedd fu’n llwyddiannus a pha rai y gellid eu gwella. O gael dull gwerthuso clir, mae’n bosibl dysgu o brofiadau er mwyn sicrhau bod ymgyrchoedd yn fwy effeithiol yn y dyfodol.



**Yr hyn yr oeddem yn bwriadu ei gyflawni yn 2018/19:**

Drwy ddadansoddi patrymau digwyddiadau blaenorol, canfod a cheisio gostwng nifer yr achosion a ragwelir o gategorïau penodol o danau.

Ymchwilir fel mater o drefn i bob tân difrifol, a chaiff ei adolygu er mwyn gwirio pa mor addas oedd y trefniadau ymateb ac i ddysgu gwersi ar gyfer gwella diogelwch cymunedol yn y dyfodol. Mae'r Awdurdod yn cael ei gynrychioli hefyd ar grwpiau cenedlaethol sy'n ystyried tueddiadau sy'n dod i'r amlwg a risgiau i'r cyhoedd. Hefyd, mae'r Grŵp Lleihau Risgiau Cymunedol yn fforwm ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru gyfan, mae'n edrych ar faterion diogelwch cymunedol ac yn cytuno ar gyfeiriad strategaethau Cymru gyfan a negeseuon diogelwch.

Mae Grŵp Llywio Ymgyrchoedd Cymru gyfan wedi cael y dasg o flaenoriaethu ymgyrch diogelwch tân i ymateb i'r themâu allweddol canlynol a nodwyd gan y Grŵp ar gyfer 2018/19:

- Peiriannau gwyn
- Profi larymau mwg
- Neges gwagio adeilad os oes tân – 'Ewch Allan a Galwch y Gwasanaeth Tân'
- Diogelwch yn y gegin/wrth goginio.

Mae'r tri gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru wedi bod yn cael nifer fawr o danau damweiniol mewn cartrefi a oedd yn gysylltiedig â pheiriannau gwyn. Roedd y broblem hon hefyd wedi'i nodi'n un o brif flaenoriaethau Grŵp Lleihau Risgiau Cymunedol Cymru gyfan, felly rhyddhawyd negeseuon diogelwch allweddol drwy wefan yr Awdurdod a'r cyfryngau cymdeithasol.




Mae diogelwch peiriannau sychu dillad yn parhau'n broblem arbennig oherwydd mae eu defnyddio'n anghywir yn gallu arwain at ganlyniadau ofnadwy. Gellir lleihau'r peryglon drwy wneud newidiadau syml i ymddygiad, megis bod yn ymwybodol o'r gwres sy'n aros yn y peiriant ei hun ac yn y dillad sydd wedi cael eu sychu.

Roedd y datganiad i'r wasg i lansio'r ymgyrch 'Peiriannau Gwyn Cymru gyfan' ym mis Tachwedd 2018 yn canolbwyntio ar brofiad teulu ifanc a gafodd dân peiriant domestig ddeufis ynghynt. Ym mis Medi 2018, aeth Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru at dân mewn cegin a oedd wedi cynnau mewn peiriant sychu dillad. Yn ffodus, roedd y fam a'i phum plentyn ifanc wedi sylwi ar fwg ac wedi gallu mynd allan o'r eiddo yn ddianaf, ond gan fod y tân wedi digwydd yn hwyr yn y nos, gallai'r canlyniadau fod wedi bod yn ddifrifol oherwydd gallai pawb fod wedi bod yn cysgu yn eu gwelyau a gallai hynny fod wedi bygwth eu bywydau. Roedd rhaid ailgartrefu'r teulu dros dro gan fod y tân wedi gadael difrod drwg yn y gegin ac roedd difrod mwg difrifol wedi effeithio ar weddill yr eiddo.

Mae'r wybodaeth a gafwyd drwy ymchwilio i'r tân wedi cyfrannu at ymgyrchoedd diogelwch tân yn y dyfodol, megis yr un sy'n cyfeirio at bethau i'w gwneud a phethau i beidio â'u gwneud gyda pheiriant sychu dillad. Mae ymgyrch 'Peiriannau Gwyn Cymru gyfan' yn cyflwyno negeseuon a allai arbed bywydau, a hynny drwy gyfathrebu wyneb yn wyneb, yn ystod Archwiliadau Diogel ac Iach, ymgyrchoedd ar y cyfryngau cymdeithasol, a defnyddio fideos yn ogystal â thaflenni wedi'u hargraffu.





**Yr hyn yr oeddem yn bwriadu ei gyflawni yn 2018/19:**

Datblygu rhagor ar yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r ffactorau sy'n cyfrannu at ba mor agored yw unigolyn i danau mewn anheddau, a defnyddio hyn i ddarparu negeseuon amserol wedi'u targedu er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r risgiau a'r canlyniadau ac i geisio dylanwadu a newid ymddygiad.

Drwy ddeall y ffactorau a'r risgiau sy'n cyfrannu at natur fregus unigolyn, gellir teilwra dulliau cyfathrebu a chynghorion i'r cyhoedd, gan ganolbwyntio adnoddau ar ymgyrchoedd penodol i gynorthwyo i leihau'r risg o niwed.

Drwy ymchwilio'n barhaus i'r pethau sy'n achosi tanau mewn cartrefi, mae modd sicrhau bod y cyngor a'r addysg a ddarperir yn parhau'n berthnasol ac yn gymesur. Er bod y ffactorau risg a ganfuwyd ddegawd yn ôl yn dal yn berthnasol heddiw, mae datblygiadau mewn technoleg a dyfeisiau electronig rhatach, er enghraifft, yn golygu bod pobl lawer mwy tebygol o gael llawer mwy o ddyfeisiau trydanol cludadwy nag oeddent ddegawd yn ôl. Mae dyfeisiau fel ffonau symudol, gliniaduron a thabledi fel arfer yn cael eu hailbweru, ac mae hynny'n creu peryglon newydd ac ychwanegol yn amgylchedd y cartref os na fyddant yn cael eu defnyddio'n gywir. Mae dyfeisiau ffug hefyd yn achosi peryglon anhysbys ac unigryw.

Electrical Safety First

Er mwyn darparu cyngor addas, mae'r Awdurdod yn cydweithio â phartneriaid proffesiynol sy'n gallu rhoi cyngor ar y dulliau cywir o gynnal a chadw a defnyddio dyfeisiau o'r fath. Drwy weithio ochr yn ochr â sefydliadau elusennol megis 'Electrical Safety First', mae hynny hefyd yn gymorth i ddatblygu canllawiau i ddarparu negeseuon diogelwch tân priodol.

Daw'r wybodaeth o brofiadau a ffynonellau mewnol, ond hefyd o brofiadau partneriaid ledled y DU ac o fynychu digwyddiadau rhyngwladol. Drwy'r Grŵp Llywio Ymgyrchoedd, mae ymgyrchoedd yn parhau'n berthnasol i'r risgiau sy'n dod i'r amlwg, a hynny ar sail profiad, gwybodaeth a dealltwriaeth. Mae rhaglenni ymgyrchoedd yn cael eu hadolygu bob blwyddyn ac maent yn gysylltiedig â digwyddiadau tymhorol.

**Stori un o ddefnyddwyr y gwasanaeth - Seren[6]**

Fe wnaeth Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru dderbyn atgyfeiriad gan asiantaeth sy'n bartner i ni, a oedd yn teimlo bod gan Seren a'i theulu fwy o berygl o dân yn y cartref oherwydd nifer o ffactorau, gan gynnwys oedran, namau corfforol a salwch tymor hir. Trefnwyd ymweliad Diogel ac Iach gan Weithiwr Cymorth Diogelwch yn y Cartref, a oedd yn gallu cael cysylltiad â Seren a'i theulu a meithrin perthynas dda. Teimlai Seren yn ddigon cyfforddus i siarad yn agored am y problemau symudedd ac iechyd a oedd ganddi hi a'i theulu. Drwy edrych o gwmpas yr eiddo, gwelodd y Gweithiwr Cymorth Diogelwch yn y Cartref y byddai'r preswylwyr yn cael budd o ganllawiau a sedd osodedig yn yr ystafell ymolchi, ynghyd â gwelliannau i gyfleusterau'r ystafell ymolchi. Gan fod y fflat i fyny'r grisiau, daeth i'r amlwg hefyd mai anaml iawn yr oedd Seren a'i theulu yn mynd allan oherwydd y drafferth i ddefnyddio'r grisiau.

[6] Rydym wedi newid yr enw i warchod preifatrwydd yr unigolyn

Yn dilyn yr ymweliad, cysylltir â'r asiantaethau perthnasol, sef yr awdurdod lleol, y gwasanaethau cymdeithasol a'r warden tai, gan dynnu sylw at anghenion Seren ac awgrymu mân addasiadau i'r eiddo a allai wella ansawdd bywyd Seren. Cafodd yr addasiadau eu gwneud yn sydyn. Awgrymwyd hefyd y byddai eiddo ar y llawr gwaelod yn fwy addas i Seren a'i theulu.

> **'Rydym wedi cael ein symud i fyngalo erbyn hyn ac mae ein bywydau wedi newid ac mae gennym safon byw lawer gwell. Diolch yn fawr iawn, heb eich help chi byddwn i'n dal yn garcharor yn y fflat.'**

Cysylltodd Seren â'r Gwasanaeth ymhen rhai wythnosau i ddweud ei bod wedi cael ei hadleoli i fyngalo a bod bywydau ei theulu wedi newid er gwell. Dywedodd ei bod hi'n gallu gadael y fflat a defnyddio'r ardal laswelltog gyffredin lle maent yn gallu mynd â'r ci am dro. Mae'r byngalo wedi cael rheiliau y tu mewn a'r tu allan, ac mae Seren yn gallu mentro allan a mynychu'r adeilad cymunedol lleol. Mae hyn wedi bod yn gymorth iddi gymdeithasu oherwydd mae Seren wedi gallu cymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol, gan gynnwys mwynhau bingo gyda'i ffrindiau a'i chymdogion.

Ers hynny, ymwelwyd eto â Seren a'i theulu er mwyn cynnal Archwiliad Diogel ac Iach newydd a theilwra'r cyngor i'w chartref newydd.

Heblaw am y peryglon amlwg a oedd yno i'r preswyliwr, roedd methu â gadael y cartref gwreiddiol petai tân yn golygu llawer mwy o risg o niwed i Seren a'i theulu. Drwy gydweithio a chael perthnasoedd gweithio effeithiol, mae iechyd a lles Seren wedi elwa'n fawr ac mae ei symudedd a'i chysylltiadau cymdeithasol yn y gymuned wedi gwella.

**Amcanion Llesiant**

- Llewyrchus ✓
- Cydnerth ✓
- Iachach ✓
- Mwy cyfartal ✓
- Gwlad o gymunedau cydlynus ✓
- Gwlad â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynny
- Cyfrifol ar lefel byd-eang



**Yr hyn yr oeddem yn bwriadu ei gyflawni yn 2018/19:**

Parhau i weithio gyda sefydliadau sy'n bartneriaid i ni a meithrin partneriaethau newydd pan fo'n briodol.

Mae'r Awdurdod yn hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu partneriaethau a gweithio'n gydgysylltiol gydag asiantaethau perthnasol sydd â diddordeb mewn creu, hybu a chynnal cymunedau mwy diogel. Mae'r Gwasanaeth yn cyflogi tri Rheolwr Partneriaethau i sicrhau bod y perthnasoedd yn parhau'n gyfoes ac effeithiol.

Un enghraifft o hyn yw'r cytundeb partneriaethol sydd gan y Gwasanaeth gyda'r Ganolfan Arwyddo Golwg Sain ac sydd wedi cael ei adolygu a'i ddiweddaru yn ddiweddar. Nod y Ganolfan yw gwella ansawdd bywyd a chydraddoldeb mynediad i bobl fyddar a phobl sydd â cholled synhwyraidd er mwyn gwella eu cyfleoedd ymhob agwedd ar fywyd. Maent yn gwneud hyn drwy hyrwyddo byd lle nad yw colled synhwyraidd yn cyfyngu, yn atal nac yn stigmateiddio pobl rhag cyflawni eu llawn botensial. Mae staff y ganolfan wedi cael eu hyfforddi i ddarparu Archwiliadau Diogel ac Iach gyda dehonglwyr cymwys neu gan staff y ganolfan eu hunain drwy ddefnyddio iaith arwyddion. Drwy gyfathrebu'n effeithiol a deall anghenion yr unigolyn, gellir sicrhau bod cyfarpar a chynghorion yn cael eu darparu yn y ffyrdd mwyaf priodol a hygyrch.

**Stori un o ddefnyddwyr y gwasanaeth - Arwel[7]**

Mae gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru drefniant gyda Chlinig Cof Glan Traeth (clinig dementia sy'n cael ei redeg gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr), sy'n gweithredu fel asiantaeth atgyfeirio ar gyfer Archwiliadau Diogel ac Iach.

Daeth atgyfeiriad i ddarparu Archwiliad Diogel ac Iach i Arwel, un o ddefnyddwyr gwasanaethau'r Clinig. Roedd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi ymweld ag eiddo Arwel o'r blaen i gynnal Archwiliad Diogelwch Tân yn y Cartref, ond roedd hyn beth amser yn ôl. Roedd y clinig wedi ei atgyfeirio oherwydd pryderon am iechyd meddwl Arwel a phroblemau gyda'i gof. Daeth yn amlwg yn ystod yr ymweliad fod Arwel yn ysmygu'n drwm, ac roedd yr olion llosgiadau sigarét ar ei ddillad yn dangos ei fod yn tueddu i syrthio i gysgu yn ei gadair tra oedd yn ysmygu. Yn ystod yr ymweliad, siaradodd y Gweithiwr Cymorth Diogelwch yn y Cartref gydag Arwel am beryglon tân o ganlyniad i ollwng sigaréts, a rhoddwyd blanced gwrth-dân iddo fel amddiffyniad ychwanegol. Profwyd y larymau mwg a'r system teleofal awtomatig. Gosodwyd larymau ychwanegol yn yr ystafell fyw a'r ystafell wely.

Yn ystod yr ymweliad, datgelodd Arwel ei fod yn teimlo'n isel ei ysbryd oherwydd nifer o broblemau iechyd a thrafferthion symudedd. Datgelodd Arwel ei fod yn temlo bod angen rhagor o gymorth arno gan ei fod yn meddwl am hunanladdiad. Yn ystod yr ymweliad, fe wnaeth y Gweithiwr Cymorth Diogelwch yn y Cartref roi cyngor i ddangos y ffordd i Arwel a chwblhau atgyfeiriad diogelu oedolyn ar ôl gorffen yr ymweliad. Yna, neilltuwyd swyddog diogelu i Arwel.

[7] Rydym wedi newid yr enw i warchod preifatrwydd yr unigolyn



**Yr hyn yr oeddem yn bwriadu ei gyflawni yn 2018/19:**

Sicrhau bod y cytundebau rhannu gwybodaeth sy'n bodoli eisoes yn parhau'n gyfoes, a cheisio sefydlu cytundebau newydd pan fo'n briodol

Mae gwybodaeth yn allweddol i waith Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mae'r gallu i rannu gwybodaeth gydag asiantaethau eraill yn rhywbeth eithriadol o fuddiol yn aml, ond er mwyn gwarchod preifatrwydd pobl, rhaid cymryd gofal wrth wneud hynny. Mae'n bwysig fod gan y cyhoedd ffydd fod unrhyw gyfnewid data personol yn digwydd yn gyfreithiol, diogel ac effeithiol.

Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI)

Ym mis Rhagfyr 2018, fe wnaeth y Prif Swyddog Tân lofnodi'r fersiwn ddiwygiedig o Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru ar ran yr Awdurdod. Mae'r Cytundeb hwn yn set cyffredin o egwyddorion a safonau sy'n cefnogi'r broses gyfreithlon o gyfnewid data personol rhwng sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau yng Nghymru. Drwy lofnodi'r Cytundeb, dangosir ymrwymiad i ddilyn yr egwyddorion ac o ddefnyddio'r safonau. Mae'r Cytundeb wedi'i ddiweddaru felly dyma fersiwn 5 (a gyhoeddwyd ym mis Medi 2018) i ystyried adborth defnyddwyr a newidiadau yn y ddeddfwriaeth; sef y Rheoliad Cyffredinol ar gyfer Diogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018.

Mae'r Gwasanaeth yn cael ei gynrychioli ar Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth Gogledd Cymru gan ei Swyddog Diogelu Data. Y grŵp yma sy'n gyfrifol am sicrhau ansawdd cytundebau rhannu gwybodaeth sy'n cael eu creu gan sefydliadau eraill yng Ngogledd Cymru.

Un enghraifft o gytundeb rhannu data yw'r un sy'n bodoli rhwng y Gwasanaeth a'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni (NEST), i gynnig inswleiddio ceudod ac atig mewn adeiladau. Dan y cytundeb, mae'r Ymddiriedolaeth yn rhannu gwybodaeth gyda'r Gwasanaeth am bobl sy'n byw â thlodi tanwydd. Mae staff yr Ymddiriedolaeth yn cael eu hyfforddi i gynnal Archwiliadau Diogel ac Iach mewn eiddo tra maent yn cynnal arolygon ar ran arall o'u busnes.

Er mwyn sicrhau bod y cytundebau rhannu data presennol yn cydymffurfio â Rheoliad GDPR, cafwyd trafodaethau rhwng y Gwasanaeth (sef rheolydd y data) a'r Ymddiriedolaeth (sef prosesydd y data) i adolygu'r cytundeb. Roedd y cyfarfodydd hyn yn sicrhau bod gofynion GDPR yn cael eu bodloni a bod ffyrdd o symleiddio'r gwasanaeth yn cael eu harchwilio. Roedd y broses hon yn dangos nad oedd llawer o'r atgyfeiriadau i'r Gwasanaeth yn targedu'r bobl a oedd â'r risg mwyaf o dân yn eu cartref. Drwy'r fersiwn ddiweddaraf o'r cytundeb rhannu data, cafodd llwybr atgyfeirio newydd ei roi ar waith i greu atgyfeiriadau a oedd yn seiliedig ar fodolaeth dau ffactor cyfrannol. Erbyn hyn, mae'r atgyfeiriadau sy'n cael eu creu drwy'r fersiwn newydd o'r cytundeb rhannu data gyda'r Ymddiriedolaeth yn targedu'r bobl sydd fwyaf mewn perygl o dân yn y cartref.

GDPR



**Amcan Gwella a Llesiant B:** Hwyluso gwasanaethau tân ac achub integredig sydd o ansawdd uchel, yn ymatebol ac wedi'u hintegreiddo'n well fel bod gweithgareddau ataliol ac ymateb brys yn gallu parhau i fod ar gael pryd a lle mae eu hangen, a hynny'n deg ac ar sail risg.



**Camau tuag at gyflawni'r amcan llesiant**

1. Hwyluso gwasanaethau tân ac achub integredig sydd o ansawdd uchel, yn ymatebol ac wedi'u hintegreiddo'n well fel bod gweithgareddau ataliol ac ymateb brys yn gallu parhau i fod ar gael pryd a lle mae eu hangen, a hynny'n deg ac ar sail risg;
2. Parhau i archwilio cyfleoedd i weithio gyda sefydliadau eraill i gynnig amrywiaeth eang o wasanaethau integredig i'r cyhoedd yng Ngogledd Cymru.



**Yr hyn yr oeddem yn bwriadu ei gyflawni yn 2018/19:**

Darparu gwasanaethau o fewn y gyllideb y cytunwyd arni, sef £33,492,877, wedi'i thanategu gan £646,701 o'r cronfeydd wrth gefn ynghyd ag arbediad o £366,000 a gafwyd drwy newid polisi yn ymwneud â'r ddarpariaeth isafswm refeniw.

Ar adeg o her ariannol eithriadol, mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i barhau i ddarparu gwasanaethau ataliol rhagorol, gwasanaethau gorfodi diogelwch tân ac ymateb brys i amrywiaeth o ddigwyddiadau, gan gynnwys tân, llifogydd a damweiniau traffig ar y ffyrdd. Mae'r Awdurdod yn parhau wedi ymrwymo i chwarae ei ran yn meithrin cymunedau cryfach a mwy diogel, ond mae hefyd yn cydnabod ar gyfer y dyfodol fod y sefyllfa ariannol yn golygu y bydd angen cael llawer iawn o hyblygrwydd ac arloesedd er mwyn parhau i gynnal y gwasanaethau.

Er mwyn cyfrannu at y mesurau cyni ar draws y sector cyhoeddus, fe wnaeth yr Awdurdod rewi ei gyllideb o 2011/2012 tan 2014/2015. Yn 2015/2016, cafwyd cynnydd bach iawn o ryw £113k, ac yn 2016/2017, fe wnaeth yr Awdurdod ddefnyddio'r cronfeydd wrth gefn unwaith eto i rewi'r gyllideb. Yn ystod y cyfnod hwn, canfu'r Awdurdod £3 million o arbedion (sef 10% o'i gyllideb) a gweld ei weithlu – gan gynnwys rheolwyr, diffoddwyr tân, staff diogelwch cymunedol a staff cefnogol – yn gostwng 9%.

Pan gafodd cyllideb 2017/18 ei hystyried, sylweddolodd yr Aelodau ei bod yn dod yn anghynaliadwy i barhau i geisio rhewi cyllideb yr Awdurdod. Mewn cyfarfod ar 20 Mawrth 2017, cytunodd yr Aelodau i gefnogi amcanion gwella drafft ar gyfer 2017/18, gan gynnwys y sail ar gyfer strategaeth ariannol tymor canolig nesaf yr Awdurdod, sef "sicrhau cynaliadwyedd ariannol yr Awdurdod drwy fabwysiadu strategaeth ariannol 3 blynedd sy'n cyfuno'r defnydd o gronfeydd wrth gefn, cynyddu'r cyfraniadau ariannol a lleihau gwasanaethau."

Yn 2017/18, sef blwyddyn gyntaf y strategaeth, cytunodd yr Awdurdod i gael £1.28 miliwn o gynnydd yn y cyfraniadau ariannol gan yr awdurdodau cyfansoddol, sef cynnydd o 4%. Dyma'r cynnydd arwyddocaol mwyaf ers 2010. Ond roedd hyn yn llai'r hyn roedd ei angen i dalu costau cynyddol cyflogau, prisiau a chyllid cyfalaf. Felly, penderfynwyd tanategu cyllideb 2017/18 gyda £414,223 yn ychwanegol o'r cronfeydd wrth gefn.

Yn ystod y flwyddyn, fe wnaeth yr Awdurdod gyflwyno dull mwy teg o ddosrannu costau'n gysylltiedig â'i raglen gyfalaf, ac arweiniodd hyn at arbedion a gafodd effaith ar y swm o gronfeydd wrth gefn y byddai ei angen i falansio'r gyllideb yn 2017/18. Mae'r Datganiad terfynol ar Incwm a Gwariant 2017/18 yn cadarnhau bod £93,083 wedi cael ei ddefnyddio o gronfeydd wrth gefn.

O ganlyniad i'r uchod, ac ynghyd â pharhad yn yr ansicrwydd mewn perthynas â'r negodiadau sy'n mynd ymlaen am gyflogau diffoddwyr tân, penderfynodd yr Awdurdod gael strategaeth ar gyfer 2018/2021 yn lle ei strategaeth 3 blynedd.

Ar gyfer 2018/19, cytunodd yr aelodau i gael 4% o gynnydd yn y cyfraniadau gan yr awdurdodau cyfansoddol, ac i ddefnyddio £0.647m o'r cronfeydd wrth gefn i danategu'r gyllideb a osodwyd ar £34.141m.

Yn ogystal â sicrhau rheolaeth ofalus ar ei gyllideb refeniw, mae'r Awdurdod yn parhau i graffu ar ei raglen gyfalaf er mwyn sicrhau ei fod yn cael y gwerth gorau. Mae'r Awdurdod yn ceisio sicrhau bod ei asedau'n cael eu defnyddio'n effeithlon ac effeithiol, ac mae'n parhau i ddadansoddi'r rhaglen gyfalaf yn erbyn goblygiadau negyddol posibl i'r refeniw.

Mae'r Datganiad Blynyddol o Gyfrifon yn rhoi crynodeb o berfformiad ariannol yr Awdurdod yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth, ac mae ar gael yn: https://www.nwales-fireservice.org.uk/media/338997/2019-07-29-pg-eitem-7-datganiad-o-gyfrifon-archwiliedig-a-datganiad-llywodraethu-atodiad-1.pdf

Yn gryno, dyma sefyllfa ariannol yr Awdurdod o ran ei gyllideb refeniw yn:

| | Cyllideb £'000oedd | Gwirioneddol £'000oedd | Amrywiad |
|---|---|---|---|
| **Gwariant** | 34,806 | 35,740 | 934 |
| **Incwm** | (665) | (1,728) | (1,063) |
| **Gwariant Net** | **34,141** | **34,012** | **(129)** |
| **Cronfeydd a Glustnodwyd** | 0 | 131 | 131 |
| **Cronfa Gyffredinol** | (647) | (649) | (2) |
| **Cyfraniadau'r Awdurdodau Unedol** | (33,493) | (33,493) | 0 |
| **Gwarged neu Ddiffyg** | 0 | 0 | 0 |



**Yr hyn yr oeddem yn bwriadu ei gyflawni yn 2018/19:**

Ymgynghori â'r cyhoedd am y camau arfaethedig i'w cymryd i gyflawni'r amcanion llesiant yn ystod 2019/20 a chytuno ar y gyllideb ar gyfer y flwyddyn honno ar sail y costau hysbys a'r rhai a ddisgwylir.

Yn dilyn cyfres o gyfarfodydd y Gweithgor Cynllunio yn 2018, penderfynodd yr Awdurdod ymgynghori â'r cyhoedd ar y trefniadau ariannu ar gyfer parhau i ddarparu gwasanaethau tân ac achub yn 2019/20. Fel rhan o'i broses gynllunio, cynhaliodd yr Awdurdod ymgynghoriad cyhoeddus ar yr amcanion yr oedd yn eu hystyried ar gyfer 2019/20.

Rhaid i'r Awdurdod gynnal proses flynyddol o osod cyllideb sy'n ddigonol i dalu'r costau rhedeg a amcangyfrifir ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol. Roedd y broses hon o osod cyllideb fantoledig ar gyfer 2019/20 yn un arbennig o anodd i'r Awdurdod oherwydd yr amgylchedd ariannol heriol, ambell gynnydd yn y costau na ellid ei osgoi yn 2019/20, ac effaith penderfyniadau blaenorol am y defnydd o gronfeydd ariannol yr Awdurdod i dalu ei gostau rhedeg.

Mae'r gwaith o gynllunio'r gyllideb ar gyfer 2019/20 wedi canfod cynnydd o £1.1m o flwyddyn i flwyddyn yn y gwariant net o'i gymharu â 2018/19. Yn ystod 2018/19, fe wnaeth yr Awdurdod defnyddio cronfeydd wrth gefn i ariannu costau rhedeg, ac nid yw hyn yn gynaliadwy oherwydd nid yw'r Awdurdod mwyach yn meddu ar ddigon o gronfeydd wrth gefn i gefnogi'r costau rhedeg parhaus.

Ar ôl ystyried y dewisiadau'n ofalus ar gyfer sicrhau cyllideb fantoledig yn y flwyddyn 2019/20, dywedodd yr Awdurdod nad oedd yn ystyried gwneud arbedion mawr oherwydd roedd o'r farn fod lefel y risg yn rhy uchel. Nid oedd wedi diystyru gwneud arbedion, ond ni fyddai maint yr arbedion hynny yn 2019/20 yn mynd mor bell â chau gorsafoedd tân neu ddiswyddo diffoddwyr tân, er enghraifft. Cafodd yr ymgynghoriad cyhoeddus ei gynnal rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2018, ac roedd yn cynnwys amrywiaeth o ddeunyddiau ymgysylltu, megis:

- dogfen ac iddi 36 o dudalennau i ddarparu gwybodaeth ac esboniad cynhwysfawr;
- holiadur ar-lein, gyda'r dewis i gyflwyno ymatebion ysgrifenedig os oedd yn well gan bobl hynny; a
- fideo dwyieithog i dynnu sylw at swyddogaeth y gwasanaeth tân ac achub ac i roi cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad cyhoeddus.

Defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu, gan gynnwys, er enghraifft: datganiad i'r wasg gyda dolen at ddeunyddiau'r ymgynghoriad a gwybodaeth yn dweud sut i gymryd rhan; llythyrau gyda chopi o ddogfen yr ymgynghoriad i'r holl randdeiliaid a oedd wedi cofrestru i dderbyn gohebiaeth o'r fath; negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol i gyfeirio pobl at yr ymgynghoriad, cynnal ymwybyddiaeth, a thynnu sylw at y dyddiad cau. Roedd yr holiadur ar-lein yn cyflwyno tri chwestiwn:

- a oedd pobl yn meddwl ei bod yn rhesymol i'r cynghorau sir gyfrannu'r swm cyfan neu ran o'r £1.9 miliwn ychwanegol sydd ei angen er mwyn gosod cyllideb fantoledig yn 2019/20;
- beth roedd pobl yn ei feddwl o'r posibilrwydd y gallai hyn ychwanegu £6 neu £7 y flwyddyn at fil treth cyngor cyfartalog Band D; a
- sut gallai'r Awdurdod leihau ei gostau rhedeg yn y dyfodol.

Yn dilyn diwedd yr ymgynghoriad, cafodd gweithdy anffurfiol ei gynnal ar 16 Tachwedd 2018 ar gyfer yr Aelodau er mwyn iddynt ystyried yr ymateb i'r ymgynghoriad a'r gyllideb ar gyfer 2019/20. Mae'r gwaith o gynllunio'r gyllideb wedi canfod £35.2m o ofyniad ar gyfer y gyllideb net.



**Yr hyn yr oeddem yn bwriadu ei gyflawni yn 2018/19:**

Parhau'n agored i gyfleoedd i staff amlsgiliau i weithio y tu hwnt i ffiniau sefydliadau i gynnig amrywiaeth ehangach o wasanaethau, yn enwedig rhai a fydd yn gwella canlyniadau iechyd, diogelwch a llesiant fel rhan o ddull 'diogel ac iach' sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Mae'r Awdurdod yn parhau i adeiladu ar arfer sydd wedi hen sefydlu, sef gweithio gyda phartneriaid i ddarparu amrywiaeth well ac ehangach o wasanaethau. Mae'r gallu hwn i feithrin partneriaethau yn allweddol i ddatblygiad amrywiaeth ehangach o wasanaethau yn y dyfodol, gyda sylw arbennig i wella canlyniadau iechyd, diogelwch a llesiant.

Cafwyd rhai enghreifftiau nodedig o weithio ar y cyd yn y ddwy flwyddyn ariannol ddiwethaf, gan gynnwys cynllun peilot ar y cyd rhwng y Tîm Cymorth Cymunedol ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a ddechreuodd ym mis Awst 2016. Cafodd y Tîm Cymorth Cymunedol ei greu i ymateb i bobl a oedd wedi cael codwm gartref ond nad oedd wedi cael anaf. O gael y tîm i fynd at y digwyddiadau hyn, roedd hynny'n aml yn osgoi'r angen i ambiwlans fynd yno, ac roedd hynny'n rhyddhau parafeddygon i ymateb i alwadau â blaenoriaeth uwch.

Er bod y cynllun peilot wedi cael adborth ardderchog gan bobl a oedd yn darparu ac yn derbyn y gwasanaeth, fe ddaeth i ben ym mis Mai 2018.

Yn siomedig, hyd yn oed gyda'r canlyniadau rhagorol uchod, ni chafodd y cyllid gan Lywodraeth Cymru ei ymestyn y tu hwnt i gyfnod y cynllun peilot cychwynnol. Ond mae'r adborth cadarnhaol a gafwyd gan bobl a fu'n rhan o'r cynllun yn dangos y brwdfrydedd a'r ymroddiad sydd gan aelodau o'r Gwasanaeth i weithio ar y cyd â phartneriaid ledled ardal y Gwasanaeth yn y dyfodol, a hynny er mwyn gwella iechyd a llesiant pobl sy'n byw yng Ngogledd Cymru.

Mae'r prosiect hwn yn dangos sut mae cynlluniau peilot traws-sefydliadol megis y rhain yn gallu gweithio drwy rannu adnoddau a thrwy ddefnyddio gweithlu amlsgiliau sy'n gallu gweithio dros ffiniau sefydliadau i gefnogi'r agenda iechyd a llesiant yn ehangach.

Isod, mae rhestr o'r canlyniadau llesol:

- cymorth i bobl sydd wedi cael codwm gartref ond nad oedd wedi cael anaf. Roedd hyn yn cynnwys helpu pobl i fod yn ddiogel a rhoi sicrwydd a chymorth
- cydweithio gwell gydag awdurdodau lleol, ysbytai, Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, Galw Gofal a gwasanaeth Monitro Galwadau Rhanbarthol Gogledd Cymru
- gwaith atal rhagor o godymau, neu ddigwyddiadau diogelwch eraill, drwy ddarparu cyngor wedi'i deilwra a'i dargedu
- cymorth i Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru drwy ryddhau amser i fynd at alwadau sy'n bygwth bywydau
- atgyfeirio at asiantaethau eraill pan fo angen
- rhoi cyngor, a dangos y ffordd at asiantaethau eraill pan fo'n briodol, os oes anghenion iechyd a llesiant eraill yn amlwg



**Yr hyn yr oeddem yn bwriadu ei gyflawni yn 2018/19:**

Parhau i fonitro a gwerthuso effaith ac effeithiolrwydd rhaglenni peilot sy'n cael eu cynnal mewn partneriaeth â sefydliadau eraill.

#DweudNidDifaru #TellUs

Yn 2018/19, fe gomisiynodd y Grwp Llywio Ymgyrchoedd ymgyrch peilot o'r enw 'Dweud Nid Difaru'. Nod yr ymgyrch oedd defnyddio gwybodaeth leol yn ein cymunedau i ddod o hyd i bobl sydd mewn perygl o ddioddef tân yn y cartref a'u hannog i rannu eu manylion â Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Er mwyn gwerthuso effaith ac effeithiolrwydd yr ymgyrch defnyddiwyd pob math o ddulliau cyfathrebu traddodiadol yn ogystal â chyfryngau digidol a chymdeithasol (gan gynnwys Facebook, ein wefan, fideos a delweddau).

Dull meintiol a ddefnyddiwyd yn bennaf i werthuso'r ymgyrch, ac roedd yn cynnwys y canlynol:

- Cyfrifo faint o atgyfeiriadau ar gyfer Archwiliadau Diogel ac Iach a grewyd gan y rhaglen,
- Nifer yr ymweliadau â'r wefan a gafwyd yn ystod yr ymgyrch,
- Nifer yr adegau y gwyliwyd y fideo, ac ati

Cafwyd sgyrsiau wyneb yn wyneb â'r trigolion lleol hefyd, er mwyn cael adborth ansoddol.

**Ar Goll o Gartref**

Yn 2018/19, parhawyd gyda'r cynllun peilot 'Ar Goll o Gartref' pryd mae staff y Gwasanaeth yn cynorthwyo yn y camau cynnar hollbwysig wrth chwilio am bobl sydd ar goll. Mae ystadegau Heddlu Gogledd Cymru yn awgrymu eu bod yn cael adroddiadau fod 3,000 o bobl ar goll o gartref bob blwyddyn. Cafodd y cynllun ei ehangu yn 2018/19 i gynnwys staff o bob un o'r 44 o orsafoedd tân y mae Heddlu Gogledd Cymru yn gallu galw arnynt i roi cymorth. Y fenter hon, fel trefnaint ffurfiol wedi'i gydlynu'n briodol, yw'r gyntaf yn y wlad. Mae'r criwiau'n parhau ar alwad ar gyfer digwyddiadau'r gwasanaeth tân, ond byddnat yn ymateb i gynorthwyo Heddlu Gogledd Cymru i ganfod pobl sydd ar goll o gartref fel y bo'r angen.

Drwy ddefnyddio adnoddau'n gynnar, gellir gwella'r siawns o ganfod pobl sydd wedi mynd ar goll am amryw o resymau. Mae defnyddio delweddau thermol hefyd yn gallu bod o gymorth mawr i'r Heddlu wrth chwilio mewn ardal benodol. Hefyd, gall y staff ddefnyddio eu hyfforddiant cymorth cyntaf cyn i gydweithwyr o Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru gyrraedd.

**Dull Mynediad**

Mae hyfforddiant 'Dull Mynediad' wedi cael ei ddarparu i'r holl staff amser cyflawn a  chriw dydd. Mae hyn yn golygu bod y criwiau'n gallu cael mynediad i eiddo yn amserol gyda llai o ddifrod, ac maent yn gallu rhoi cloeon newydd ar ddrysau fel bod yr eiddo'n ddiogel cyn iddynt adael. Mae hyn yn gymorth i helpu cydweithwyr yn Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i roi mynediad at bobl sydd angen gofal meddygol a phobl sy'n methu eu helpu eu hunain. Mae'r hyfforddiant arbenigol yma yn cael ei drefnu drwy Fwrdd Cydweithredu'r Gwasanaethau Brys.

**Beth mae'r Mesur yn mynnu bod yr Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ei wneud**

Roedd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn cymryd lle Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, ac fel rhan o'r ddeddfwriaeth newydd, mae gan y Gymraeg statws cyfreithiol cyfartal â'r Saesneg yng Nghymru a rhaid peidio â'i thrin yn llai ffafriol. Erbyn hyn, nid oes raid i'r Awdurdod ddatblygu a gweithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg, ond rhaid iddo gydymffurfio â chyfres o Safonau'r Gymraeg.

Cyflwynodd Comisiynydd y Gymraeg Hysbysiad Cydymffurfio i'r awdurdodau tân ac achub ar 30 Medi 2016. Mae hwn yn rhestru'r Safonau (fel yn y rhestr lawn yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5) 2016) y mae'n rhaid i'r Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru gydymffurfio â nhw, ynghyd ag unrhyw eithriadau a dyddiadau gweithredu.

Rhaid i'r Awdurdod gyhoeddi adroddiad blynyddol ar safonau'r Gymraeg am 2018/19 erbyn 30ain Medi 2019 a rhaid iddo roi cyhoeddusrwydd priodol iddo.

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i sicrhau y dylid, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal er mwyn cydnabod a gwerthfawrogi amrywiaeth cyfoethog cymunedau gyda threftadaeth naturiol a diwylliannol o bwys.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod bod dyletswydd arno tuag at ei staff hefyd, y rhan fwyaf ohonynt yn drigolion Gogledd Cymru ac sydd eu hunain yn adlewyrchu cyfansoddiad ieithyddol a diwylliannol eu cymunedau. Drwy gydnabod ei ddyletswyddau moesol a chyfreithiol i ddiogelu treftadaeth ddiwylliannol yr ardal ac ateb disgwyliadau'r gymuned leol, mae'r Awdurdod yn parhau i weithio tuag at sicrhau ei fod yn cynnal ei fusnes cyhoeddus yn y ddwy iaith.

**Mae Cynllun Gweithredu'r Awdurdod ar gael i'w weld gan ddefnyddio'r ddolen isod:**

http://www.nwales-fireservice.org.uk/media/337605/welsh-language-standardsimplementation-plan-GTAGC.pdf

Yn ystod 2018/19 fe wnaeth yr Awdurdod barhau i gydymffurfio â chyfres o Safonau'r Gymraeg a gyhoeddwyd yn yr Hysbysiad Cydymffurfio ar 30 Medi 2016. Mae hefyd wedi parhau i weithio gyda'r ddau Awdurdod Tân ac Achub arall drwy gynnal cyfarfodydd rheolaidd o'r Grŵp Iaith.

**Safon 147: Nifer y gweithwyr sydd â sgiliau Cymraeg:**

Ar 31 Mawrth 2018, roedd 673 yn gallu dangos bod ganddynt sgiliau Cymraeg (lefel 2 ac uwch), ac roedd 343 ohonynt yn siaradwyr rhugl (Lefel 4 a 5).

**Safon 148: Nifer yr aelodau o'r staff sydd wedi mynychu hyfforddiant penodol y mae'n rhaid ei ddarparu yn Gymraeg os yw ar gael yn Saesneg (sef hyfforddiant ar recriwtio a chyfweld, rheoli perfformiad, cwynion, cynefino, delio â'r cyhoedd ac iechyd a diogelwch):**

O'r hyfforddiant a restrir yn Safonau Gweithredol Rhif 125, dim ond hyfforddiant iechyd a diogelwch a ddarparwyd eleni. Dewisodd dau aelod o'r staff i gwblhau'r cwrs IOSH Rheoli'n Ddiogel drwy gyfrwng y Gymraeg eleni. Petai'r hyfforddiant eraill sydd wedi eu rhestru yn y Safon wedi cael eu cynnig, byddant wedi cael eu hwyluso yn y Gymraeg a'r Saesneg.

**Safon 151: Nifer y swyddi newydd a gwag sy'n cael eu categoreiddio fel rhai lle mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol, yn ddymunol, heb fod yn angenrheidiol neu fod angen ei dysgu:**

Mae pob swydd yn gofyn am ryw lefel o Gymraeg, a'r lefel isaf yw Lefel 2 mewn siarad a gwrando. Yn ystod y cyfnod hwn, cafodd 21 o swyddi newydd a gwag eu hysbysebu, roedd 5 ohonynt yn swyddi lle'r oedd y Gymraeg yn hanfodol (Lefel 4 a 5) a 16 yn swyddi lle'r oedd y Gymraeg yn ddymunol (Lefel 2 o leiaf). Yn ystod y cyfnod hwn, fe wnaeth y Gwasanaeth hefyd gyflogi 53 o ddiffoddwyr tân i'r system RDS (ar alw) - rhaid i bob diffoddwr tân sy'n cael ei benodi gyrraedd Lefel 2 fel lefel ofynnol naill ai pan maent yn dechrau neu o fewn eu cyfnod prawf.

**Safon 143: Nifer y cwynion a ddaeth i'r sefydliad am bob dosbarth o safonau:**

Mae'r cwynion yn cael eu monitro a'u trin gan yr Adran Safonau Proffesiynol a Gwasanaeth. Mae cwynion a llythyron o werthfawrogiad yn cael eu hadrodd yn flynyddol i'r Awdurdod Tân ac Achub. Ni ddaeth unrhyw gwynion i law am y Gymraeg yn ystod 2018/19. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi cyhoeddi trefn gwyno ar ei wefan, ac mae ganddo bolisi mewnol i'r staff ynglŷn â sut i fynegi pryder neu gŵyn.

**Hyrwyddo'r Gymraeg:**

Mae'r Gymraeg yn cael ei hyrwyddo'n fewnol mewn gwahanol ffyrdd: drwy Gynllun Hyrwyddwyr y Gymraeg, Colofn Gymraeg rheolaidd yn y cylchgrawn mewnol 'Y Fflam', yn ystod bwletinau wythnosol i'r staff, yr ymgyrch Mercher 'Marfer, a thrwy Workplace Facebook sydd gan is-grwpiau ar gyfer Dysgwyr a Hyrwyddwyr. Mae gwobr 'Dysgwr y Flwyddyn'/ 'Ymrwymiad i'r Gymraeg' hefyd yn cael ei chyflwyno.

Mae'r Adran Adnoddau Dynol yn canfod beth yw dewis iaith darpar weithwyr yn ystod y pwynt cyswllt cyntaf, ac mae'n cofnodi'r wybodaeth at y dyfodol. Mae'n cadw cofnod o bob aelod o'r staff sydd wedi dweud eu bod yn dymuno cael gohebiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, a gellir adolygu'r dewis hwn unrhyw bryd. Cyfieithwyd pob polisi a ffurflen Adnoddau Dynol sy'n ymwneud â chyflogaeth yr unigolyn, ac maent yn cael eu cyhoeddi'n fewnol. Hefyd, mae cwynion a materion disgyblu yn cael eu hwyluso drwy gyfrwng y Gymraeg os gwneir cais am hynny, a dangosir parch bob amser at ddewis iaith yr unigolyn.

Mae'r adran Hyfforddi yn cadw cofnod o'r holl gyrsiau Cymraeg y mae gweithwyr yn eu mynychu a'r asesiadau sy'n cael eu gwneud, ac mae'n cofnodi'r canlyniadau yn ei system gofnodi fewnol. Eleni, crëwyd pecyn adnoddau newydd i'r Hyrwyddwyr er mwyn eu defnyddio yn y gweithle gyda Dysgwyr. Mae'r pecynnau yn cynnwys matiau A3, cardiau fflach, gemau a thaflenni gwaith sydd wedi eu dylunio i helpu pobl sydd yn dysgu Cymraeg. Mae'r adnoddau hyn wedi cael eu hanfon i'r holl orsafoedd tân a swyddfeydd ardal.

Mae gan y Gwasanaeth gynllun Hyrwyddwyr Iaith Gymraeg lle mae aelodau staff yn gwirfoddoli i gefnogi cydweithwyr ledled y Gwasanaeth i wella eu sgiliau iaith Gymraeg. Eleni, crëwyd pecyn adnoddau newydd i'r Hyrwyddwyr er mwyn eu defnyddio yn y gweithle gyda Dysgwyr. Mae'r pecynnau yn cynnwys matiau A3, cardiau fflach, gemau a thaflenni gwaith sydd wedi eu dylunio i helpu pobl sydd yn dysgu Cymraeg. Mae'r adnoddau hyn wedi cael eu hanfon i'r holl orsafoedd tân a swyddfeydd ardal.

Mae pob polisi newydd a diwygiedig yn cael ei gyhoeddi’n fewnol yn Gymraeg a Saesneg, a rhaid i bob polisi gael asesiad effaith integredig cysylltiedig i ganfod ei effaith ar y Gymraeg ac i ganfod a hyrwyddo ffyrdd o greu effaith gadarnhaol ac osgoi unrhyw effaith negyddol.

Fel gyda’r Polisi blaenorol ar y Gymraeg, mae’r gwaith yn parhau i gynnig dewis iaith i bawb sy’n defnyddio gwasanaethau, a bu hyn yn fuddiol ac yn ffordd o ymgysylltu’n well â phob aelod o’r gymuned. Eleni rydym wedi bod yn rhagweithiol wrth hybu’r Gwasanaeth fel sefydliad dwyieithog trwy hyrwyddo negeseuon ar Twitter gan ddefnyddio’r hashnod #yagm fel rhan o’r fenter ‘Yr Awr Gymraeg’. O ganlyniad gwelsom gynnydd nodedig yn y galw am Archwiliadau Diogel ac Iach drwy gyfrwng y Gymraeg, sef cynnydd o 13.36% yn 2017/18 i 14.53% yn 2018/19. Mae’r holl ddeunyddiau cyhoeddusrwydd, posteri a thaflenni yn ddwyieithog, a’r Gymraeg yn ymddangos yn gyntaf bob tro.

Rhoddir canllawiau i’r staff am bwysigrwydd cynnig dewis iaith i bawb, boed wyneb yn wyneb neu dros y ffôn, ni waeth beth yw’r lleoliad, yr acen, yr ethnigrwydd ac ati. Mae’r neges hon yn cael ei hailadrodd yn y modiwl gorfodol ar Ymwybyddiaeth o’r Gymraeg sydd wedi cael ei greu ar gyfer y staff, yn ystod y sesiynau wyneb yn wyneb i staff newydd ac yn ystod y cwrs hyfforddi cychwynnol i’r diffoddwyr tân.

Mae’r Awdurdod yn cydnabod gwerth a mantais cynnig dewis iaith ac fel y cyfryw mae wedi parhau i weithredu Ystafell Reoli/Canolfan Gyfathrebiadau Ar y Cyd gwbl ddwyieithog, er nad oes gofyniad statudol i ateb galwadau 999 yn ddwyieithog. Mae’r Awdurdod yn cydnabod bod dyletswydd foesol ac egwyddorol arno i ddelio’n effeithiol â phobl mewn argyfyngau felly mae’n mynd y tu hwnt i’r Safonau i ddelio â digwyddiadau’n effeithiol yn newis iaith y sawl sy’n galw.

Paratowyd canllawiau ar ryddhau gohebiaeth i’r cyhoedd, ac mae pob llofnod e-bost a phapur pennawd yn cynnwys datganiad sy’n croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae logos Siarad Cymraeg a Dysgu Cymraeg wedi cael eu cynnwys yn y llofnod e-bost safonol.

Mae gwefan GTAGC yn gwbl ddwyieithog, ac mae hyn yn cynnwys cyfleusterau ReadSpeaker drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae ymholiadau drwy’r wefan yn cael eu hateb yn newid iaith y sawl sy’n eu derbyn.

## CYNNYDD MEWN PERTHYNAS Â'R AMCANION CYDRADDOLDEB STRATEGOL

**Beth mae'r Ddeddf yn mynnu bod yr Awdurdod yn ei wneud**

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010) yn mynnu bod yr Awdurdod yn ysgrifennu cynllun cydraddoldeb bob 4 blynedd. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016/20 yn nodi chwe amcan cydraddoldeb y mae'r Awdurdod yn eu hybu i sicrhau bod Cymru'n wlad fwy teg i fyw ynddi. Nod y Ddeddf Cydraddoldeb yw sicrhau bod gan bawb hawl i'r canlynol:

- cael eu trin yn deg
- cael yr un siawns â phobl eraill
- bod yn rhydd o gamwahaniaethu.

Mae penawdau'r amcanion hyn yn seiliedig ar y penawdau meysydd yn nogfen y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol "Pa mor Deg yw Cymru". Mae'r penawdau'n gyson hefyd â Chynllun Cydraddoldeb Strategol Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru; mae hyn yn golygu bod modd cynnwys cyd-amcanion yng Nghynlluniau Cydraddoldeb Strategol sefydliadau unigol y sector cyhoeddus.

Ar ôl nodi'r amcanion hyn, mae dyletswydd ar yr Awdurdod i gymryd pob cam rhesymol i'w hybu ac i adrodd yn gyhoeddus, ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, am y cynnydd a wnaeth. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn rhestru nifer y nodweddion na chaniateir eu defnyddio fel rheswm dros drin rhai pobl yn waeth nag eraill. Dyma'r 'nodweddion gwarchodedig':

- Oedran;
- Anabledd;
- Ailbennu Rhywedd;
- Priodas a Phartneriaeth Sifil;
- Beichiogrwydd a Mamolaeth;
- Hil;
- Crefydd neu Gred/Dim Cred;
- Rhyw;
- Cyfeiriadedd Rhywiol.

Defnyddiwyd nifer o ffynonellau i ddatblygu'r amcanion cydraddoldeb strategol:

- Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb
- Amcanion y Cynllun Cyfunol i Leihau Risg a Gwella
- Cynlluniau busnes gan benaethiaid adrannau
- Strategaethau a chynlluniau sy'n bodoli eisoes
- Canlyniad gweithgareddau ymgysylltu

Mae'r ddeddfwriaeth yn caniatáu newid yr amcanion unrhyw bryd, felly ymgysylltir drwy'r amser i sicrhau bod yr amcanion yn parhau'n gyfoes. Mae'r Awdurdod yn mynd ati drwy'r amser i archwilio'r dulliau mwyaf effeithiol o ymgysylltu drwy gysylltiadau cyfredol â grwpiau a mudiadau cymunedol, a thrwy ymdrechu i sefydlu perthynas â grwpiau a chymunedau newydd, anghenion a disgwyliadau pawb dan sylw. Rhaid i'r Awdurdod gyhoeddi'r asesiad hwn o'i berfformiad yn 2018/19 erbyn 31ain Mawrth 2020.

**Amcan Cydraddoldeb 1 – Bywyd ac Iechyd**

Gostwng nifer y tanau mewn cartrefi a'r anafusion sy'n gysylltiedig â'r rheini, a hynny drwy strategaeth ataliol gynhwysfawr wedi'i hanelu'n benodol at bobl y gellir dangos eu bod â mwy o risg oherwydd eu nodweddion a/neu eu hamgylchiadau penodol.

**Gan weithio i gyflawni'r amcan hwn, rydym wedi:**

- Mynychu sesiynau rhyngweithiol i helpu i adnewyddu a chynnal perthnasoedd gwaith agos gydag asiantaethau sy'n bartneriaid i ni ac sy'n darparu Archwiliadau Diogel ac Iach
- Canfod bod trosiant staff mewn asiantaethau sy'n bartneriaid i ni yn golygu bod darpariaeth Archwiliadau Diogel ac Iach yn cael ei cholli weithiau. Mae negeseuon atgoffa yn cael eu hanfon i dynnu sylw at y gwasanaeth

**Amcan Cydraddoldeb 2 – Cyflogaeth**

Drwy ein harferion cyflogaeth, mae rhaglenni a chynlluniau yn cynyddu gobeithion cyflogaeth pobl a allai fel arall ei chael hi'n anodd cael mynediad cyfartal at fyd gwaith.

**Gan weithio i gyflawni'r amcan hwn, rydym wedi:**

- Darparu diwrnodau 'blasu' mewn digwyddiadau cymunedol i godi ymwybyddiaeth merched am gyfleodd recriwtio sydd ar y gweill
- Cynnig cyfle i recriwtiaid posibl gymryd rhan mewn profion corfforol mewn amgylchedd anffurfiol, ac rydym wedi rhoi cyngor datblygu mewn amserlen realistig i'w helpu i wella
- Cadw ein Strategaeth Gweithredu Cadarnhaol yn ddogfen 'fyw' sy'n parhau i gael ei diwygio lle bo'n berthnasol
- Gwreiddio'r grŵp 'Holl Gynhwysiant' ymhob rhan o'r gwasanaeth
- Recriwtio dau gohort o brentisiaid diffoddwyr tân ar ôl datblygu'r fframwaith cymhwyster gyda Choleg Llandrillo Menai
- Cynnal nosweithiau agored mewn gorsafoedd i roi gwybodaeth i ymgeiswyr Ar Alwad a chyfle i ymgysylltu â diffoddwyr tân ar alwad sy'n gwasanaethu nawr
- Parhau i groesawu lleoliadau profiad gwaith
- Gweithio gyda'n cymheiriaid yng ngwasanaeth tân y Canolbarth a'r Gorllewin a gwasanaeth tân y De i ysgrifennu a chynhyrchu 'Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol Cymru gyfan 2018-2021', a fydd yn rhoi cymorth i recriwtio a datblygu gweithlu sy'n cofleidio ac yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth

**Amcan Cydraddoldeb 3 – Addysg**

Drwy raglen gynhwysfawr o addysg a chyngor wedi'i deilwra, a honno'n cael ei darparu'n unigol neu ar y cyd, grymuso pobl sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â Gogledd Cymru i barhau i ostwng eu lefel eu hunain o risg o dân a pheryglon eraill yn ystod gwahanol gamau o'u bywydau.

**Gan weithio i gyflawni'r amcan hwn, rydym wedi:**

- Ymgysylltu â staff ynglŷn ag adolygu llwyth gwaith swyddogion argaeledd, y system RDS a'r system dyletswydd hyblyg
- Cynnwys materion cynhwysiant yn y Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadau Cymru gyfan
- Cymryd rhan mewn Adolygiad Cymru gyfan o'n canolfannau Asesu a Datblygu
- Parhau i raeadru deunyddiau hyfforddi i staff am Ddeddf Trais yn erbyn Menywod a Cham-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2015

**Amcan Cydraddoldeb 4 – Diogelwch Personol**

Lleihau'r risg o farwolaeth neu anaf oherwydd tanau yng Ngogledd Cymru drwy ddarparu gwasanaethau effeithiol i atal ac amddiffyn, ac ymateb i argyfyngau tân ac achub.

**Gan weithio i gyflawni'r amcan hwn, rydym wedi:**

- Integreiddio, yn awditiau'r gweithle, asesiad o'r ddealltwriaeth o droseddau casineb a thrais domestig
- Sicrhau bod diogelwch tân cymunedol a'r system rheoli a gorchymyn yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf am risgiau.

**Amcan Cydraddoldeb 5 – Cynrychiolaeth a Llais**

Drwy fod yn agored ac atebol am yr hyn a wnawn a beth yw ein cynlluniau, annog mwy o bobl i gymryd rhan yn y broses o benderfynu sut bydd gwasanaethau tân ac achub yn cael eu darparu yng Ngogledd Cymru, a cheisio cynyddu'r amrywiaeth o leisiau cynrychioliadol sy'n cyfrannu at y broses honno.

**Gan weithio i gyflawni'r amcan hwn, rydym wedi:**

- Ymgynghori â'r cyhoedd rhwng 12 Medi a 2 Tachwedd 2018 ynglŷn â fforddiadwyedd y gwasanaeth tân ac achub. Cafodd dulliau electronig modern, megis y cyfryngau cymdeithasol, eu defnyddio i annog cynifer o bobl â phosibl i ymateb.

**Amcan Cydraddoldeb 6 – Mynediad at Wasanaethau, Gwybodaeth ac Adeiladau**

Gwella mynediad at wybodaeth a chyfathrebiadau yn GTAGC, a gwella mynediad corfforol at adeiladau'r gwasanaeth tân ac achub y mae'r cyhoedd yn eu defnyddio neu'n ymweld â nhw.

**Gan weithio i gyflawni'r amcan hwn, rydym wedi:**

- Parhau i sicrhau bod dulliau priodol o gyfathrebu yn cael eu defnyddio i hyrwyddo negeseuon diogelwch blaenoriaethol fel y canfyddir gan yr adran Diogelwch Tân, gan ystyried ieithoedd lluosog, hygyrchedd, a chydweithio â fforymau a grwpiau cynrychioliadol sydd wedi'u sefydlu.
- Cynnal archwiliad ar hygyrchedd ein gwefan, ac rydym yn gweithio drwy'r argymhellion ar gyfer gwella.
- Gweithio gyda gwasanaeth tân ac achub y Canolbarth a'r Gorllewin a gwasanaeth tân ac achub y De i greu un daflen ar gyfer yr Archwiliad Diogel ac Iach, sy'n cyfuno gwahanol bynciau yn ymwneud â diogelwch tân. Mae hon yn fwriadol yn hawdd i'w darllen, a bydd ar gael ledled Cymru.

Yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010, caiff yr wybodaeth cyflogaeth benodedig mewn perthynas â gweithwyr ac ymgeiswyr fel ac yr oedd pethau ar 31 Mawrth 2019 ei gyhoeddi ar ein gwefan cyn gynted ag y bydd ar gael (dim hwyrach na 31ain Mawrth 2020).

# SUT MAE AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU YN CYMHARU?


Drwy gymharu gweithgarwch gydag eraill, gellir cael gwybodaeth fuddiol ar gyfer defnyddio dangosyddion i fesur effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Er nad oes gwybodaeth ar gael yn hawdd bob amser o fewn yr amserlenni sydd eu hangen ar gyfer cyhoeddi'r adroddiad hwn, mae rhai data defnyddiol wedi cael eu casglu o'r 'Bwletin Ystadegol' a gynhyrchir gan adran Ystadegau yn Llywodraeth Cymru ac o'r wefan mynediad agored 'Stats Cymru'. Weithiau, mae amrywiadau bach yn bodoli rhwng y ffigyrau cyhoeddedig hyn a'r rhai a gyhoeddir gan yr Awdurdod ar ei wefan, a hynny gan mwyaf oherwydd gwaith diweddarach i sicrhau ansawdd.


Mae'r cymariaethau am weithgareddau yn yr adran hon yn seiliedig ar ffigyrau 2017/18, a phan fo'r rheini ar gael, ar ffigyrau 2018/19. Y ffigyrau poblogaeth yw'r rhai a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae dolenni i'r ffynonellau allanol yn cael eu darparu yn yr adran 'gwybodaeth arall' ar ddiwedd y ddogfen.

Aeth Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru at gyfanswm o 5,305 o ddigwyddiadau brys yn ystod 2018/19, sef 14.46% o gyfanswm yr holl ddigwyddiadau brys yr aethpwyd atynt yng Nghymru.

Mae nifer y tanau y mae'r Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru yn mynd atynt wedi cynyddu 17% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Ond yng Ngogledd Cymru, roedd y cynnydd hwn fymryn yn llai, sef 12%. Ers 2001/02, cafwyd tueddiad am i lawr yn nifer y tanau yr aethpwyd atynt; yn 2018/19, mae'r ffigwr 63% yn is nag yn 2001/02 yng Nghymru gyfan.




Yn ystod 2018/19, aeth Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru at gyfanswm o 2,281 o danau, sef 265 yn fwy nag yn y flwyddyn flaenorol. Er bod nifer y tanau wedi cynyddu, mae canran y tanau yr aeth Gogledd Cymru atynt wedi gostwng fymryn.




Ffynhonnell: Dangosydd Perfformiad Statudol FRS/RRC/S/001i

Yn 2018/19, cafwyd 740 yn fwy o danau damweiniol ledled Cymru o'i gymharu ag yn 2017/18, sef cynnydd o 16%. Ond ers 2001/02, mae'r nifer wedi gostwng 41% ledled Cymru. Tanau damweiniol oedd 71% o'r holl brif danau a 23% o'r tanau eilaidd, ac roedd bron pob un o'r tanau simnai yn rhai damweiniol.





Ffynhonnell: Dangosydd Perfformiad Statudol FRS/SEC/FI/001i a FRS/SEC/FI/001ii

**Prif Danau**


Mae nifer y prif danau yng Nghymru wedi cynyddu 2% dros y flwyddyn, o 4,316 yn 2017/18 i 4,392 yn 2018/19. Ond yng Ngogledd Cymru, fe wnaeth nifer y prif danau ostwng 11%, sef 960 o danau o’i gymharu â 993 yn y flwyddyn flaenorol. Ers 2001/02, mae nifer y prif danau yng Ngogled Cymru wedi gostwng 60%, ac yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru a De Cymru, cafwyd tua dau draean o ostyngiad. Mae’r tri ATA yng Nghymru wedi cynnal ymgyrchoedd diogelwch tân wedi’u targedu a gwaith diogelwch cymunedol megis Archwiliadau Diogel ac Iach ac ymweliadau ag ysgolion.

## Prif Danau ar draws Cymru, 2018/19



**Tanau Eilaidd**

Ledled Cymu, aethpwyd at gyfanswm o 8,185 o danau eilaidd yn 2018/19, sef cynnydd o 30% o'i gymharu ag yn 2017/18, sy'n debyg i'r ffigwr ar gyfer Gogledd Cymru (32%). Dyma'r nifer uchaf o danau eilaidd ers 2011/12 a'r cynnydd mwyaf o un flwyddyn i'r llall ers 2013/14.




Tanau eilaidd yw'r categori mwyaf cyffredin o danau y mae ATAau Cymru yn mynd atynt, ac maent yn 62% o'r holl danau ers 2001/02 ac yn 63% o'r rhai yr aethpwyd atynt yn 2018/19. Mae tanau eilaidd yn cynnwys tanau glaswelltir a sbwriel oni bai fod tanau o'r fath yn cynnwys anafusion neu achub pobl, colli eiddo neu'n rhai lle mae pum neu fwy o beiriannau yn mynd atynt.

**Tanau Glaswelltir**

Ledled Cymru, mae nifer y tanau glaswelltir, coetir a chnydau wedi cynyddu 75% o'i gymharu ag yn 2017/18. Mae 46% o'r holl danau eilaidd wedi digwydd ar laswelltir, coetir neu dir cnydau, tra oedd 41% wedi digwydd ar 'dir arall'. Fe wnaeth y niferoedd hyn gynyddu 86% a 8%, yn eu trefn, o'i gymharu ag yn y flwyddyn flaenorol (sy'n cyfateb i bron i 2,000 yn fwy o danau). Mae nifer y tanau hyn yn debygol o fod wedi cael ei dylanwadu gan y tywydd; er enghraifft, 2012/13 gafodd y nifer ail isaf o danau eilaidd ers 2001/02 a honno hefyd oedd y flwyddyn ariannol ail wlypaf ers 1910/11. Yn ôl y Swyddfa Dywydd – mae'r 10 blwyddyn boethaf wedi digwydd ers 2002.

Yn ystod 2018/19, aeth Gogledd Cymru at nifer o danau glaswelltir/awyr agored mewn lleoliadau ledled ardal y Gwasanaeth, gan gynnwys Carmel, Braichmelyn, Talsarnau a Llantysilio. Yn ystod misoedd yr haf, mae'r llwyth o danau glaswelltir wedi cymryd llawer o adnoddau'r Gwasanaeth ond mae hefyd wedi rhoi cyfleoedd i'r Gwasanaeth nid yn unig feddwl am berfformiad mewn perthynas â'r Canllaw Rheoli Digwyddiadau ond hefyd am yr offer a'r technegau sy'n cael eu defnyddio yn y digwyddiadau. Mae hefyd wedi tynnu sylw at yr angen i ganolbwyntio ar yr effaith y mae tanau o'r fath yn ei chael ar gymunedau a'r amgylchedd gan fod maint a dwyster y tanau glaswelltir a ddigwyddodd yn 2018/19 wedi bod yn fwy, ar y cyfan, nag yn y blynyddoedd blaenorol.

Mae rheoli tân glaswelltir yn digwydd yn well pan fo gan y diffoddwyr tân ddealltwriaeth o amrywiaeth o strategaethau, gan gynnwys creu llinellau rheoli a defnyddio’r tân fel erfyn ataliol. Ers hynny, mae rhagor o becynnau hyfforddiant targedol wedi cael eu datblygu i helpu diffoddwyr tân yn y dyfodol, ynghyd â phenodi Swyddogion Tanau Awyr Agored lefel 2 a 3. Yn ystod mis Gorffennaf 2018, fe wnaethy Gwasanaeth addasu cerbyd i fod yn fwy addas i’r math o dir lle mae tanau glaswelltir yn digwydd. Rhoddwyd pwmp pwysedd uchel ar y cerbyd, a darnau hirach o bibell er mwyn gallu eu defnyddio o leoliadau diogel a chadarn.


**Anafusion Tân**

Cafwyd 20 o farwolaethau yng Nghymru yn 2018/19. Mae hyn 5 yn fwy nag yn y flwyddyn flaenorol, er yn nifer tebyg i’r hyn a welwyd cyn hynny. Mae’r tueddiad cyffredinol ers 2001/02 wedi bod yn mynd am i lawr, ond mae’r niferoedd yn fach ac yn agored i amrywio.

396 oedd nifer yr anafusion anangheuol yn 2018/19, sef 25% o ostyngiad o’i gymharu ag yn 2017/18 a’r nifer (a’r gyfradd) isaf ers 2009/10. Mae’r tueddiad cyffredinol dros y deng mlynedd ddiwethaf wedi bod am i lawr, er yn y blynyddoedd diweddar mae’r niferoedd a’r cyfraddau cysylltiedig wedi bod yn amrywio. Mae pob ATA wedi cael gostyngiadau yn nifer (a chyfrad) yr anafusion anangheuol. Digwyddodd y gostyngiad hwn yn bennaf oherwydd gostyngiad o 33% yn nifer y bobl sy’n cael cymorth cyntaf neu naill ai’n cael archwiliad rhagofalus, neu’n cael eu cynghori i gael archwiliad rhagofalus, sef traean yn is o’i gymharu ag yn 2017/18.

**Tanau mewn Cartrefi**

Yn 2018/19, cafodd Gogledd Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru ostyngiadau yn nifer y prif danau damweiniol mewn cartrefi o’i gymharu â’r flwyddyn flaenorol, fel y gwelir yn y tabl isod. Dim ond yn Ne Cymru y cafwyd cynnydd. Yn 2018/19, aeth Gogledd Cymru at 15% (59) yn llai o danau damweiniol mewn cartrefi nag yn 2017/18, a 24% (105) yn llai nag yn 2016/17.




Ffynhonnell: Dangosydd Perfformiad y Sector FRS/SEC/FI/001iii, FRS/SEC/F/001iv a FRS/SEC/FI/001v

Yn 2018/19, y prif beth a achosodd danau damweiniol mewn cartrefi oedd camddefnyddio offer neu beiriannau, sef traean o’r tanau hyn. Dyma’r prif beth a achosodd danau damweiniol mewn cartrefi ers 2001/02.

**Marwolaethau ac Anafiadau oherwydd Tanau mewn Cartrefi**

Yn yr 18 mlynedd ers 2001/02, mae 77% o'r marwolaethau tân wedi digwydd mewn cartrefi, sy'n cyfateb i gyfanswm o 312 allan o 406 o farwolaethau. Roedd tri chwarter y marwolaethau a ddigwyddodd yn 2018/19 yn ganlyniad i danau mewn cartrefi, sef cyfran debyg i'r hyn a gafwyd yn y ddwy flynedd flaenorol. Yng Ngogledd Cymru, cafwyd pedair marwolaeth yn fwy yn 2018/19 nag yn 2017/18, ond dylid nodi bod y niferoedd a gofnodwyd yn 2017/18 yn rhai arbennig o isel.

| | Gogledd Cymru | | Canol. a Gorll. Cymru | | De Cymru | | Cymru | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2017/18 | 2018/19 | 2017/18 | 2018/19 | 2017/18 | 2018/19 | 2017/18 | 2018/19 |
| Nifer y marwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | 1 | 5 | 8 | 5 | 4 | 4 | 13 | 14 |
| Nifer y marwolaethau oherwydd tanau bwriadol mewn cartrefi | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |

Ffynhonnell: Dangosydd Perfformiad y Sector FRS/SEC/IN/002iii a FRS/SEC/IN/002iv

O'r 396 o anafusion anangheuol yn 2018/19, roedd 299 (76%) wedi digwydd o ganlyniad i danau mewn cartrefi, tra oedd 63% wedi digwydd o ganlyniad i danau damweiniol mewn cartrefi.

| | Gogledd Cymru | | Canol. a Gorll. Cymru | | De Cymru | | Cymru | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2017/18 | 2018/19 | 2017/18 | 2018/19 | 2017/18 | 2018/19 | 2017/18 | 2018/19 |
| Nifer yr anafusion oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | 44 | 52 | 61 | 40 | 65 | 66 | 170 | 158 |
| Nifer yr anafusion oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | 3 | 4 | 2 | 17 | 4 | 11 | 9 | 32 |

Ffynhonnell: Dangosydd Perfformiad y Sector FRS/SEC/IN/002v a FRS/SEC/IN/002vi

Yng Ngogledd Cymru, cofnodwyd pedwar yn fwy o anafiadau difrifol yn 2018/19 nag yn y flwyddyn flaenorol, ond dylid nodi bod y niferoedd a gofnodwyd yn 2017/18 yn rhai arbennig o isel.


| Marwolaethau ac Anafiadau mewn Tanau Damweiniol mewn Cartrefi | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 |
|---|---|---|---|---|
| Archwiliad Rhagofalus | 54 | 49 | 32 | 13 |
| Cymorth Cyntaf | 45 | 42 | 25 | 27 |
| Anafiadau – mân | 42 | 25 | 39 | 11 |
| Anafiadau – difrifol | 5 | 8 | 2 | 6 |
| Marwolaeth | 3 | 4 | 1 | 5 |
| Cyfanswm | 149 | 128 | 99 | 62 |

Mae coginio (heb gynnwys nifer y tanau sosban saim) yn parhau i fod yr un peth sy'n achosi'r nifer fwyaf o anafiadau anangheuol mewn tanau damweiniol yn 2018/19 (21%), a hynny oedd yn gyfrifol am 68 o anafiadau anangheuol yn 2018/19 ledled Cymru. Am y rheswm hwn, mae ymgyrchoedd diogelwch wrth goginio yn parhau'n un o brif flaenoriaethau Grŵp Llywio Ymgyrchoedd Gogledd Cymru o flwyddyn i flwyddyn.

**Galwadau Diangen**

Yn 2018/19, aethpwyd at 14,487 o alwadau tân diangen yng Nghymru, sef cynnydd o 2% ers 2017/18 (14,161) er mai dyma'r nifer ail isaf ers 2001/02. Ers yr adeg hon, mae nifer y galwadau diangen am danau wedi gostwng 26%. Mae herio galwadau'n llwyddiannus wedi bod yn ffactor yn y gostyngiad tymor hir hwn. Dim ond galwadau diangen didwyll sydd wedi cynyddu yn 2018/19 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (17%), ac mae'n bosibl priodoli hynny i'w haf poeth a sych. Mae galwadau tân diangen oherwydd cyfarpar wedi gostwng 6% tra bo galwadau diangen maleisus wedi gostwng 11%.

Yn 2018/19, fe wnaeth Gogledd Cymru gael cyfanswm o 3,056 o alwadau diangen gan larymau tân awtomatig, a mynd at 37% ohonynt. Ers y gostyngiad sydyn cychwynnol yn nifer y galwadau diangen yn 2015/16, ar ôl newid y polisi ar Larymau Tân Awtomatig, mae nifer gyffredinol y galwadau diangen yr aethpwyd atynt wedi bod yn gostwng yn raddol. Yn 2018/19, aeth y Gwasanaeth at 8% (159) yn fwy o alwadau diangen nag yn 2017/18, ac 14% (274) yn fwy nag yn 2015/16, er nad yw'r union nifer yr aethpwyd atynt wedi dangos yr un patrwm o gynnydd.




Ffynhonnell: Dangosydd Perfformiad Statudol FRS/RRC/S/001vi a Dangosydd Perfformiad y Sector FRS/SEC/FA/003i a FRS/SEC/FA/003ii


Ar y cyfan, cafwyd tueddiad am i lawr yn nifer y galwadau diangen maleisus, gan ostwng 89% ers 2001/02, ac ers 2011/12 mae'r niferoedd wedi gostwng bob blwyddyn. Yn 2018/19, cafodd Gogledd Cymru gynnydd yn nifer y galwadau diangen maleisus o'i gymharu ag yn 2017/18 (5%). Yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru a De Cymru, cafwyd 27% a 5% o ostyngiad yn eu trefn.

**Gwasanaethau Arbennig**

Digwyddiadau gwasanaeth arbennig yw chwarter yr holl ddigwyddiadau y mae ATAau yng Nghymru yn mynd atynt. Mae'r digwyddiadau hyn yn cynnwys gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd, llifogydd, digwyddiadau meddygol ac ati. Ar y cyfan, mae mynd at ddigwyddiadau gwasanaeth arbennig wedi gostwng 20% yn 2018/19. Cafwyd gostyngiad o 53% yng Ngogledd Cymru, a chafwyd 15% o ostyngiad yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, ac 16% o ostyngiad yn Ne Cymru.

Mae'r gostyngiad yn yn y presenoldeb yng Ngogledd Cymru wedi digwydd oherwydd gostyngiad yn nifer y digwyddiadau i gynorthwyo asiantaethau eraill megis y rhai gan y Tîm Cymorth Cymunedol yn ogystal â chyd-ymateb. Ond mae'r gostyngiadau yn y Canolbarth a'r Gorllewin a'r De wedi digwydd oherwydd llai o ddigwyddiadau meddygol. Gogledd Cymru sy'n mynd at y nifer isaf o ddigwyddiadau gwasanaeth arbennig, a hynny'n rhannol oherwydd system weithio wahanol fel nad ydym yn mynd i ddigwyddiadau meddygol (fel ymatebwr cyntaf).

**Gweithgareddau Allweddol:**



## CRYNODEB O WYBODAETH AM BERFFORMIAD

Cyflwynwyd Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (ATAau) (Dangosyddion Perfformiad) (Cymru) 2015 ar 1 Ebrill 2015 a chyflwynwyd tri Dangosydd Perfformiad statudol sy'n cyd-fynd â'r dangosyddion sector sy'n cael eu casglu'n lleol.

| **DANGOSYDDION STATUDOL:** | | **2017/18** | | **2018/19** | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Nifer** | **Graddfa** | **Nifer** | **Graddfa** |
| RRC/S/001i | Tanau yr aethpwyd atynt | 2,029 | 29.16 | 2,281 | 32.78 |
| RRC/S/001ii | Galwadau diangen yr aethpwyd atynt | 2,112 | 30.35 | 2,269 | 32.61 |
| RRC/S/001iii | Gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd | 206 | 2.96 | 220 | 3.16 |
| RRC/S/001iiv | Argyfyngau eraill yr aethpwyd atynt | 1,386 | 19.92 | 535 | 7.69 |
| Lle mae'r raddfa yn seiliedig ar 10,000 o boblogaeth | | | | | |
| RRC/S/002i | Marwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i dân | 63 | 9.05 | 48 | 6.90 |
| RRC/S/002ii | Marwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i danau damweiniol | 59 | 8.48 | 28 | 4.02 |
| Lle mae'r raddfa yn seiliedig ar 100,000 o boblogaeth | | | | | |
| RRC/S/002iii | Tanau mewn anheddau a oedd wedi eu cyfyngu i'r ystafell lle bu iddynt gychwyn | 422 | 88.86 | 313 | 86.94 |
| Fel canran o nifer y tanau mewn anheddau yr aethpwyd atynt | | | | | |

| **DANGOSYDDION Y SECTOR:** | | **2017/18** | | **2018/19** | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Nifer** | **Graddfa** | **Nifer** | **Graddfa** |
| SEC/FI/001i | Tanau bwriadol | 650 | 9.34 | 657 | 9.44 |
| SEC/FI/001ii | Tanau damweiniol (neu lle nad yw'r cymhelliad yn hysbys) | 1,379 | 19.82 | 1,626 | 23.35 |
| Lle mae'r raddfa yn seiliedig ar 10,000 o boblogaeth | | | | | |
| SEC/IN/002i | Marwolaethau'n gysylltiedig â thân | 2 | 0.29 | 8 | 1.15 |
| SEC/IN/002ii | Anafiadau a achoswyd gan danau | 61 | 8.77 | 40 | 5.74 |
| SEC/IN/002iii | Marwolaethau'n gysylltiedig â thân mewn tanau damweiniol mewn cartrefi | 1 | 0.14 | 5 | 0.72 |
| SEC/IN/002iv | Marwolaethau'n gysylltiedig â thân mewn tanau bwriadol mewn cartrefi | 0 | 0.00 | 1 | 0.14 |
| SEC/IN/002v | Anafiadau'n gysylltiedig â thân mewn tanau damweiniol mewn cartrefi | 41 | 5.89 | 17 | 2.44 |
| SEC/IN/002vi | Anafiadau'n gysylltiedig â thanau bwriadol mewn cartrefi | 2 | 0.29 | 17 | 2.44 |
| Lle mae'r raddfa yn seiliedig ar 100,000 o boblogaeth | | | | | |
| SEC/FI/001iii | Tanau mewn cartrefi | 422 | 12.94 | 360 | 11.02 |
| SEC/FI/001iv | Tanau damweiniol mewn cartrefi | 386 | 11.84 | 327 | 10.01 |
| SEC/FI/001v | Tanau bwriadol mewn cartrefi | 36 | 1.10 | 33 | 1.01 |
| SEC/FA/003ii | Galwadau diangen mewn cartrefi | 788 | 24.17 | 853 | 26.11 |
| Lle mae'r raddfa yn seiliedig ar 10,000 o boblogaeth | | | | | |
| SEC/FI/001vi | Tanau mewn safleoedd annomestig | 122 | 4.13 | 223 | 7.34 |
| SEC/FA/003i | Galwadau diangen mewn safleoedd annomestig | 325 | 10.99 | 279 | 9.19 |
| Lle mae'r raddfa yn seiliedig ar 1,000 o safleoedd annomestig | | | | | |
| SEC/SA/004i | Tanau mewn cartrefi yr aethpwyd atynt lle nad oedd larwm mwg yno | 67 | 15.88 | 47 | 13.06 |
| Fel canran o nifer y tanau mewn anheddau yr aethpwyd atynt | | | | | |

# Y SIARTER YMATEB I DANAU MEWN ANHEDDAU YN 2018/19

Yn ystod 2012 fe wnaeth y tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru fynd ati ar y cyd i ddatblygu Siarter Cymru gyfan i sicrhau bod pobl yng Nghymru, ni waeth ble y maent yn byw, yn gallu disgwyl cael cymorth a chefnogaeth i fod yn ddiogel rhag tân yn eu cartrefi, ac os bydd tân yn cychwyn byddant yn cael ymateb brys prydlon, effeithiol a phroffesiynol i'w galwad am gymorth.

Mae'r Siarter yn gwneud saith ymrwymiad penodol y bydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn gwneud y canlynol:

1. Byddwn yn cymryd yr awenau wrth ostwng nifer y tanau mewn anheddau sy'n digwydd a lleihau eu heffaith ar bobl.
2. Byddwn yn ymateb yn gyflym ac effeithlon bob tro y byddwn yn derbyn galwad frys 999 i fynd at dân mewn annedd.
3. Byddwn yn cyrraedd tanau mewn anheddau yn gyflym gyda'r offer cywir i ymdrin â nhw.
4. Byddwn yn ymdrin â thanau mewn anheddau yn effeithiol, yn effeithlon ac yn broffesiynol.
5. Byddwn yn cyfrannu at gael pethau'n ôl i drefn mewn cymunedau ar ôl tanau mewn anheddau.
6. Byddwn yn ymchwilio i achosion tanau mewn anheddau, ac yn dal y bobl berthnasol i gyfrif pan fo'n briodol gwneud hynny.
7. Byddwn yn ymdrechu i gynnal safonau uchel a gwella agweddau ar yr hyn a wnawn.

Mae'r tudalennau a ganlyn yn darparu gwybodaeth ynglŷn â'n cydymffurfiad â'r ymrwymiadau hyn yn ystod 2018/19.

Er cysondeb, rydym yn cynnig defnyddio naratif safonol ar gyfer adrodd ynghylch y Siarter bob blwyddyn, a dim ond yn diweddaru'r ffigyrau o fewn fframwaith y naratif hwnnw.

**1. Byddwn yn cymryd yr awenau wrth ostwng nifer y tanau mewn anheddau sy'n digwydd a lleihau eu heffaith ar bobl.**

Rydym wedi ymrwymo i gymryd yr awenau wrth gynnal tueddiad am i lawr yn nifer yr achosion o danau mewn anheddau a'r anafusion cysylltiedig yng Nghymru.

Yn 2018/19 fe wnaethom ni ddarparu cyngor ac anogaeth i bobl ynglŷn â'r modd y gallant atal tanau rhag cychwyn yn eu cartref a sut y gallant eu cadw eu hunain yn ddiogel rhag tân. Roedd ein gweithgarwch atal tanau yn cynnwys cynnal 20,651 o Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref i breswylwyr, ac fe wnaeth 20,833 o blant a phobl ifanc yng Nghyfnodau Allweddol 1 - 4 dderbyn sgwrs ar ddiogelwch tân.

Yn ystod 2018/19 aethom at 327 o danau damweiniol mewn anheddau ble cafodd 5 person ei ladd a 17 o bobl eraill eu hanafu.

Hefyd yn ystod 2018/19 aethom at 33 o danau mewn anheddau a gafodd eu cynnau'n fwriadol, lle cafodd un person ei ladd ac 17 o bobl eraill eu hanafu.

Mae'r tuedd yn y nifer o danau mewn cartrefi yn ardal yr ATA dros y pum mlynedd diwethaf yn dangos gostyngiad cyson



**2. Byddwn yn ymateb yn gyflym ac effeithlon bob tro y byddwn yn derbyn galwad frys 999 i fynd at dân mewn annedd.**

Rydym wedi ymrwymo i ymateb yn gyflym ac effeithlon pan fo galwadau brys 999/112 yn cael eu trosglwyddo inni gan y gweithredwr.

Mae ein hystafell reoli tân ar gael yn barhaol, gyda threfniadau arbennig yn eu lle ar gyfer trosglwyddo galwadau'n llyfn o un ystafell i'r llall os bydd rhywbeth difrifol yn tarfu neu os bydd cynnydd mawr yn nifer y galwadau sy'n dod drwodd ar yr un pryd.

Mae systemau mapio a systemau electronig soffistigedig yn gymorth inni wneud y canlynol: a) canfod lleoliad y digwyddiad dan sylw a b) anfon yr adnodd mwyaf priodol sydd ar gael at y digwyddiad.


Yn 2018/19, fe wnaethom ni drin cyfanswm 14,286 o alwadau brys 999/112. Roeddem ni hefyd yn gallu cael digon o wybodaeth am ddigwyddiadau i rybuddio'r ymateb cychwynnol priodol cyn pen 90 eiliad ar 91.9% o adegau, a rhwng 91 a 120 o eiliadau ar 2.9% o adegau.

Fodd bynnag, gwyddom nad pa mor gyflym yr ydym yn trin yr alwad yw'r unig ffon fesur berthnasol – er bod hynny'n bwysig. Mae gwybod ble mae angen ein gwasanaeth yn gofyn am sgiliau arbenigol i gael gwybodaeth yn effeithiol gan bobl sy'n galw ac sydd, efallai, yn anghyfarwydd â'r ardal lle maent, yn ofnus neu mewn trallod, yn ifanc iawn, neu gydag anawsterau iaith neu gyfathrebu.

Sgil bwysig arall yw gwybod pryd y mae galwr yn camddefnyddio'r system 999/112 drwy honni bod yna argyfwng pan nad oes un mewn gwirionedd. Mae'n drosedd gwneud galwadau ffug i'r gwasanaethau brys. Yn anffodus, nid yw hyn yn rhwystro lleiafrif o bobl rhag defnyddio'r llinellau 999 a thynnu gwasanaethau oddi wrth bobl a allai fod mewn sefyllfa sy'n wirioneddol yn bygwth bywyd. Bob tro y byddwn yn mynd allan at y galwadau diangen mae amser ac arian yn cael eu gwastraffu ac mae'n gosod gweddill y gymuned mewn mwy o berygl.

Yn 2018/19, fe wnaethom ni dderbyn 114 o alwadau diangen maleisus. Yn 64% o'r achosion, roeddem wedi gallu sefydlu nad oedd y galwadau hyn yn rhai didwyll ac felly wedi osgoi anfon adnoddau allan yn ddiangen.

**3. Byddwn yn cyrraedd tanau mewn anheddau yn gyflym gyda'r offer cywir i ymdrin â nhw.**



Unwaith y byddwn wedi ateb yr alwad frys 999/112 ac wedi dyrannu'r adnoddau mwyaf priodol i fod yn bresennol gyntaf yn y digwyddiad, ein blaenoriaeth nesaf yw cyrraedd y digwydd yn gyflym, yn ddiogel a chyda'r offer cywir i ymdrin â'r mater.

Yn 2018/19 fe wnaethom ni ymateb i 9% o danau mewn anheddau o fewn 1-5 munud, 54% o fewn 5-10 munud, 19% o fewn 10-15 munud a 18% mewn 15 munud a mwy. Mae'r amseroedd hyn yn cynnwys yr amser mae'n ei gymryd i'r staff gyrraedd yr orsaf dân yn ogystal â'r amser teithio felly mae sawl peth yn gallu effeithio ar gyflymder y ffigyrau ymateb, gan gynnwys y ddaearyddiaeth drefol/wledig a natur rhwydweithiau'r ffyrdd yn yr ardal.

Mae cyflymder yr ymateb i danau mewn anheddau yn eithriadol bwysig ond ni allwn orbwysleisio mor bwysig yw atal y tanau hynny rhag digwydd yn y lle cyntaf a chael o leiaf un larwm mwg gweithredol a chynllun dianc wedi ei gynllunio o flaen llaw rhag ofn y bydd tân. Fodd bynnag, os bydd tân mewn annedd, rydym yn sicrhau bod gan ein criwiau diffodd tân yr offer cywir i'w ddiffodd.

Mae gan ein diffoddwyr tân gyfarpar amddiffyn personol a chyfarpar diffodd tân, o safon. Rydym yn gofyn iddynt fod yn ffit ac yn iach ac yn gofalu bod eu sgiliau'n cael eu profi a'u hymarfer yn rheolaidd. Rydym hefyd yn mynd ati'n rheolaidd i wirio bod y ffordd y mae ein criwiau wedi trin digwyddiadau yn cyd-fynd â'r gweithdrefnau derbyniol ar gyfer diffodd tanau.

Rydym yn cymryd diogelwch ein diffoddwyr tân yn gwbl o ddifrif, o ystyried natur y gwaith y maent yn ei wneud. Yn 2018/9 aeth ein criwiau at 2,281 o danau mewn amrywiaeth o lefydd gwahanol gan gynnwys yn yr awyr agored. Wrth ddiffodd y tanau hynny, cafodd 22 o staff gweithredol anaf. I rai, bychan oedd yr anaf, ond i eraill roedd yr anaf yn ddigon difrifol iddynt orfod cymryd amser i ffwrdd er mwyn dod atynt eu hunain. Peth prin yw anafiadau difrifol i ddiffoddwyr tân – o blith yr uchod, doedd dim un yn anaf 'penodol' dan Reoliadau RIDDOR (Rheoliadau Adrodd ynghylch Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau).

**4. Byddwn yn ymdrin â thanau mewn anheddau yn effeithiol, yn effeithlon ac yn broffesiynol.**




Rydym wedi ymrwymo i ymdrin â thanau yn effeithiol, yn effeithlon ac yn broffesiynol. I wneud hyn, mae ein criwiau'n cael y sgiliau, yr wybodaeth, y cyfarpar diffodd tân a chefnogaeth rheolwyr fel eu bod yn gwbl barod i ymdrin â'r tân mewn annedd, ni waeth beth fo'r amgylchiadau.

Yn 2018/19, o'r holl danau damweiniol mewn anheddau yr aethom atynt, llwyddwyd i gyfyngu 87% ohonynt i'r ystafell lle bu iddynt gychwyn heb ledaenu ymhellach. Er y gallai nifer o ffactorau gyfrannu at yr ystadegyn hwn fod y tu hwnt i reolaeth y criwiau (megis faint o amser a gymerodd i rywun ddarganfod y tân yn y lle cyntaf, a oedd drysau mewnol wedi eu cau ai peidio er mwyn rhwystro'r tân rhag lledaenu, a faint o amser oddi wrth orsaf dân yr oedd yr annedd), rydym yn dal yn ystyried hyn yn ddangosydd rhesymol o'n llwyddiant wrth ddiffodd tanau.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd ymchwil a gwelliannau i gyfarpar, ac yn sicrhau ein bod yn buddsoddi amser ac ymdrech i ddysgu beth yw'r datblygiadau diweddaraf.

Rydym hefyd yn cymryd delwedd broffesiynol y gwasanaeth tân ac achub o ddifrif. Rydym yn rhoi pwys mawr ar nodweddion a rhinweddau personol pob un o'n staff gweithredol yn ogystal â'u ffitrwydd corfforol a seicolegol a safon uchel eu hyfforddiant rheoli a gweithredol.

Rydym yn annog pob un o'n staff i gadw at gyfres o werthoedd craidd a fabwysiadwyd yn genedlaethol gan wasanaethau tân ac achub y DU ac sy'n cyfleu ein hymrwymiad i roi gwerth ar wasanaeth i'r gymuned, i bobl, i amrywiaeth ac i wella.



**5. Byddwn yn cyfrannu at gael pethau'n ôl i drefn mewn cymunedau ar ôl tanau mewn anheddau.**

Rydym wedi ymrwymo i gael pethau'n ôl i drefn mewn cymunedau ar ôl tanau mewn anheddau.

Mae cael tân yn y cartref yn gallu gwneud i bobl deimlo'n fregus iawn. Pan fo pobl wedi colli eu heiddo bydd angen cymorth ymarferol yn ogystal â chymorth emosiynol. Pan fo pobl wedi cael eu hanafu neu eu lladd yn y tân, mae'r profiad yn gallu effeithio ar gymunedau gyfan yn ogystal â'r unigolyn a'i deulu agos a'i gyfeillion. Oherwydd hyn nid yw cyfraniad y Gwasanaeth Tân ac Achub at gefnogi cymunedau yn dod i ben pan fo'r tân wedi cael ei ddiffodd a phawb wedi ei ddarganfod.

Ymhob achos, ymchwilir i achos y tân a gwneir cofnod manwl. Bydd yr holl fanylion ynglŷn â sut a ble y cychwynnodd y tân, pa mor bell y lledaenodd, unrhyw amgylchiadau arbennig, ac unrhyw ffactorau penodol a gyfrannodd at y tân yn cael eu cofnodi fel ffynhonnell ar gyfer dysgu, ymchwilio a monitro yn y dyfodol.

Os oes rheswm i gredu bod tân wedi ei gynnau'n fwriadol mewn annedd, naill ai gan rywun sy'n byw yno neu gan rywun arall, bydd yr Heddlu ac asiantaethau perthnasol eraill yn mynd ar ôl hyn.

Ar rai safleoedd, megis blociau o fflatiau neu dai lle mae nifer o wahanol denantiaid yn byw, gallai'r ymchwiliadau ar ôl y digwyddiad ddangos bod landlord wedi methu sicrhau'r lefel angenrheidiol o ddiogelwch tân. Yna, gallai ein hymchwilwyr tân arbenigol fod yn rhan o ymchwiliad troseddau ac achos llys.

Os canfyddir bod tân wedi cychwyn yn ddamweiniol, byddwn efallai'n cynnal rhyw fath o weithgarwch diogelwch cymunedol neu ymgyrch yn y cyffiniau, gan gynnig cyngor a sicrwydd drwy Archwiliadau Diogelwch yn y Cartref yn rhad ac am ddim..

**6. Byddwn yn ymchwilio i achosion tanau mewn anheddau, ac yn dal y bobl berthnasol i gyfrif pan fo'n briodol gwneud hynny.**



Byddwn wastad yn ymchwilio i achosion tanau mewn anheddau. Yn aml bydd achos a tharddiad tân yn eglur a syml iawn, ond weithiau bydd angen ymchwiliad mwy trylwyr a fforensig i wybod beth yw achos mwyaf tebygol y tân. Dim ond mewn lleiafrif bychan y bydd yr achos yn 'anhysbys'. Yn 2018/19, dim ond 11 o danau mewn anheddau a gofnodwyd lle'r oedd yr achos yn 'anhysbys' .


Os oes amheuaeth o drosedd, cynhelir yr ymchwiliad i'r tân gyda'r Heddlu. Mae pobl a amheuir o roi annedd ar dân yn debygol o wynebu achos troseddol, er mewn rhai achosion efallai nad dyma'r unig lwybr posibl – er enghraifft os cafodd y tân ei gynnau gan blentyn ifanc neu gan rywun yn ceisio cyflawn hunanladdiad.

Yn 2018/19, aethom at 360 o danau mewn anheddau, a chanfuwyd bod 33 ohonynt wedi cael eu cynnau'n fwriadol.

Mewn rhai adeiladau preswyl, megis fflatiau a thai amlfeddiannaeth, mae'r rhannau cyffredin sy'n cael eu rhannu yn dod dan reoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i bwy bynnag sy'n gyfrifol am y safle (megis y landlord neu reolwr yr adeilad) gael trefniadau diogelwch tân da yn eu lle. Mae methu â gwneud hynny yn gallu arwain at gau'r safle ac erlyn y person sy'n gyfrifol gyda'r posibilrwydd o garchar a/neu ddirwyon anghyfyngedig.

Fel awdurdod gorfodi, rydym yn sicrhau bod personau syn gyfrifol yn cyflawni eu rhwymedigaethau dan y ddeddfwriaeth hon, a gallwn ddewis o blith ystod o opsiynau gorfodaeth sydd ar gael inni gan ddibynnu ar ba mor ddifrifol yw'r tramgwydd a pha risg mae'n ei olygu.

Yn 2018/19 bu i ni roi 3 Hysbysiad Gorfodi, dim un Hysbysiad Gwahardd a dim un Rhybudd Ffurfiol. No prosecutions were concluded during the year. Ni chafodd yr un erlyniad ei gwblhau yn ystod y flwyddyn.



**7. Byddwn yn ymdrechu i gynnal safonau uchel a gwella agweddau ar yr hyn a wnawn.**

Rydym yn mynd ati'n barhaus i ymdrechu i gynnal safonau uchel a gwella agweddau ar yr hyn a wnawn.

Dan y ddeddfwriaeth, mae'r Awdurdodau Tân ac Achub yn cael eu categoreiddio'n 'Awdurdodau Gwella Cymreig' ac mae disgwyl iddynt adolygu'n rheolaidd a gwella'n barhaus eu perfformiad eu hunain drwy broses ffurfiol o osod, gweithredu ac adrodd ynghylch Amcanion Gwella blynyddol.

Ond nid ydym yn cyfyngu ein gweithgarwch gwella i'r broses flynyddol ffurfiol hon gan fod safonau uchel a gwelliant parhaus yn rhan annatod o'n gwaith bob dydd yn rhedeg y Gwasanaeth Tân ac Achub.

Dyma rai enghreifftiau o weithgarwch gwella sy'n cael ei wneud:

- Mynd ati'n barhaus i adolygu perfformiad ac effeithiolrwydd y sefydliad er mwyn canfod cyfleoedd i wella
- Ymateb yn gadarnhaol i adolygiadau gan gymheiriaid, archwiliadau ac arolygiadau
- Ymateb yn gadarnhaol i ymatebion i ymgynghoriadau, adborth gan randdeiliaid, cwynion a chanmoliaeth
- Dysgu oddi wrth ein profiadau, megis drwy drafod ar ôl digwyddiadau, adroddiadau am ddamweiniau neu adroddiadau am ddamweiniau a fu bron â digwydd
- Cyfrannu at weithgorau, rhannu arferion da, a dysgu oddi wrth ymchwil sy'n cael ei gynnal
- Manteisio ar gyfleoedd i ddysgu oddi wrth – a chyda – sefydliadau eraill drwy bartneriaethau, pwyllgorau, byrddau a chymdeithasau proffesiynol
- Cynllunio ar gyfer heriau posibl i'n gallu i gynnal ein gweithrediadau, megis drwy brosesau rheoli parhad busnes
- Cynllunio ar gyfer heriau posibl i'n gallu i ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol, megis drwy fforymau cydnerthedd lleol
- Mynd ati'n barhaus i ddatblygu sgiliau technegol a phroffesiynol ein staff
- Cynnal ac adnewyddu ein hasedau materol a chyfrifiadurol, megis ein cyfarpar, ein cerbydau, ein hadeiladau a'n technoleg.

# BETH MAE POBL ERAILL WEDI'I DDWEUD AMDANOM

**Arolygiad gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch**

Fe wnaeth yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ymweld â GTAGC ar 24 a 25 Hydref 2018 fel rhan o raglen yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o arolygiadau ar Wasanaethau Tân ac Achub. Roedd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn un o chwe gwasanaeth tân ac achub i gael ymweliad. Fel rhan o'r arolygiad, bu'r Archwilwyr yn siarad â staff o wahanol adrannau a lleoliadau, ac aethant i orsafoedd tân Llandudno a'r Bala.

Canfuwyd bod gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru arferion da o ran arddull coetsio ei raglen Archwiliad Safonau Gwasanaeth Proffesiynol a'i reolaeth o Ddysgu Gweithredol Cenedlaethol a Dysgu Gweithredol ar y Cyd.

Fe wnaeth yr arolygiad ganfod un maes gwelliant posibl o ran y modd rydym yn darparu gwybodaeth am risgiau safleoedd penodol i'r criwiau gweithredol. Roedd yn fater yr oedd GTAGC eisoes yn ymwybodol ohono, a GTAGC dynnodd sylw'r tîm arolygu ato.

Daeth cynrychiolwyr o bob un o'r chwe gwasanaeth tân ac achub at ei gilydd i rannu'r hyn a ddysgwyd o bob arolygiad yn ogystal â meysydd lle ceir arferion da. Fe wnaeth GTAGC gyflwyniad ar broses Archwilo Safonau Proffesiynol a Gwasanaeth.

Ni chafwyd adroddiad ysgrifenedig gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn dilyn ei arolygiad o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

**Adroddiad Asesu Cymheiriaid 2017/18**

Mae copi o Adroddiad Asesu Cymheiriaid 2017/18 ar gael drwy glicio ar y ddolen isod:
*i'w ddiweddaru pan fydd y ddolen ar gael, erbyn 30 Medi 2019 fan bellaf.

**Swyddfa Archwilio Cymru – Adroddiad Gwella Blynyddol 2018/19**

Roedd yr adroddiad gwella blynyddol diweddaraf gan Swyddfa Archwilio Cymru yn canolbwyntio ar edrych i ba raddau y mae'r Awdurdod wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni'r amcan llesiant a ganlyn:

• 'Parhau i archwilio cyfleoedd i weithio gyda sefydliadau eraill i gynnig amrywiaeth ehangach o wasanaethau integredig i'r cyhoedd yng Ngogledd Cymru.'

Fel rhan o'r adolygiad hwn, cafodd arolwg partneriaethol ei gynnal hefyd i asesu pa mor effeithiol yw gwaith partneriaethol yr Awdurdod gan edrych sut mae Ymweliadau Diogel ac Iach yn cael eu cynnal yn ogystal ag edrych ar waith y Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol. Mae copi o'r adroddiad ar gael ar ein gwefan gan ddefnyddio'r ddolen isod:

*i'w ddiweddaru pan fydd y ddolen ar gael, erbyn 30 Medi 2019 fan bellaf.

## GWYBODAETH ARALL

- Mae **Deddf Tân ac Achub 2004** yn egluro dyletswyddau a phwerau'r Awdurdod i:
  - Hybu diogelwch tân;
  - Ymladd tanau;
  - Amddiffyn pobl ac eiddo rhag tanau;
  - Achub pobl o ddamweiniau traffig ar y ffyrdd;
  - Ymateb i risgiau penodol eraill, megis digwyddiadau cemegol;
  - Ymateb i argyfyngau mawr, megis ymosodiadau terfysgol.

- Mae **Gorchymyn Gwasanaethau Tân ac Achub (Argyfyngau) (Cymru) 2007** a **Gorchymyn (Diwygio) 2017** yn gosod dyletswyddau ar yr Awdurdod mewn perthynas ag argyfyngau sy'n ymwneud â halogion cemegol, biolegol neu ymbelydrol; dymchweliadau strwythurol; trenau, tramiau neu awyrennau; a llifogydd ac argyfyngau dŵr mewndirol pan maent yn golygu perygl marwolaeth, anaf difrifol neu salwch.

- Mae **Deddf Argyfyngau Sifil 2004** yn mynnu bod yr Awdurdod yn cynllunio ar gyfer ac yn ymateb i argyfyngau mawr sy'n bygwth niwed difrifol i les dynol, yr amgylchedd neu i ddiogelwch.

- Mae **Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005** yn mynnu bod yr Awdurdod yn gorfodi diogelwch tân ar safleoedd annomestig, gan gynnwys y rhannau cymunol o flociau o fflatiau a thai amlfeddiannaeth.

- Dan **Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009** rhaid i'r Awdurdod osod amcanion i fynd ati'n barhaus i wella'r hyn mae'n ei wneud a chyhoeddi gwybodaeth am ei welliant a'i berfformiad.

- Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn mynnu bod yr Awdurdod yn gweithio tuag at wella llesiant cenedlaethau o bobl yng Nghymru yn y dyfodol, a hynny'n unigol ac fel aeld statudol I'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngogledd Cymru.

- Mae **Deddf Cydraddoldeb 2010** yn gosod dyletswyddau ar yr Awdurdod i dalu sylw dyledus i ddileu camwahaniaethu, aflonyddu a fictimeiddio, hybu cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng pobl sydd â nodweddion gwarchodedig gwahanol.

- Roedd **Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011** yn disodli Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, ac fel rhan o'r ddeddfwriaeth newydd, mae gan y Gymraeg yng Nghymru statws cyfartal â'r Saesneg a rhaid peidio â'i thrin yn llai ffafriol. Erbyn hyn, nid oes angen i gyrff cyhoeddus ddatblygu a gweithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg. Yn hytrach, rhaid iddynt gydymffurfio â chyfres o Safonau'r Gymraeg.

- Cyflwynwyd **Deddf Diogelu Data 2018** i foderneiddio'r deddfau diogelu data a chwrdd ag anghenion economi a chymdeithas sydd yn dod yn fwyfwy digidol. Mae'n darparu fframwaith gyfreithiol ar gyfer diogelu data, gweithredu safonau GDPR yn gyffredinol wrth brosesu data a gwneud yn siŵr bod gan y DU ddeddfwriaeth briodol i ddiogelu wedi iddo adael yr UE.

**Dyletswyddau'r Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cynllunio ar gyfer ac ymateb i argyfyngau mawr sy'n bygwth niwed difrifol i les dynol, yr amgylchedd neu i ddiogelwch | Gorfodi diogelwch tân mewn safleoedd annomestig | Hyrwyddo Diogelwch tân | Ymladd tanau, ac amddiffyn pobl ac eiddo rhag tanau | Achub pobl o ddamweiniau traffig ar y ffyrdd |
| Ymateb i argyfyngau mawr megis ymosodiadau terfysgol | **DYLETSWYDDAU'R AWDURDODAU TÂN AC ACHUB YNG NGHYMRU** | | | Ymateb i risgiau penodol, megis digwyddiadau cemegol a rhai mathau o argyfyngau llifogydd |
| Gosod amcanion i barhau i wella'n barhaus | Dileu camwahaniaethu, hybu cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng pobl sydd â nodweddion gwarchodedig gwahanol | Gweithio mewn modd sydd yn ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau | Trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gydradd, hyrwyddo'r Gymraeg a chydymffurfio gyda'r safonau Iaith Gymraeg diffiniedig | Gweithio tuag at wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol pobl |

**Llywodraeth Cymru – Pobl a Chymunedau**

http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/safety/fire/?lang=cy

**Swyddfa Archwilio Cymru**

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cyhoeddi adroddiadau ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, sy'n gorfod asesu pa mor debygol yw'r Awdurdod o barhau i wella ac asesu a yw'r Awdurdod yn cyflawni ei ddyletswyddau ac yn gweithredu yn unol â'r cyfarwyddyd perthnasol. Hefyd, mae archwilwyr yn gweithio gydag awdurdodau tân ledled Cymru i gynnal rhaglen o archwiliadau ariannol a gwerth am arian. http://archwilio.cymru/

**Trwyddedi Atgynhyrchu Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus**

Mae deunyddiau hawlfraint y Goron yn cael eu hatgynhyrchu yn y ddogfen hon dan Drwydded Rhif C2010002320.

**Ffynonellau gwybodaeth allanol a ddefnyddiwyd wrth lunio'r ddogfen hon**

Ystadegau Digwyddiadau Tân ac Achub Cymru 2018/19: https://gov.wales/fire-and-rescue-incident-statistics-april-2018-march-2019

Stats Cymru https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue

Adroddiad Llywodraeth Cymru ar Dueddiadau'r Dyfodol 2017 https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2018-12/170505-future-trends-report-2017-cy.pdf

**YMYRRYD OS BYDD METHIANT NEU FETHIANT POSIBL I GYDYMFFURFIO:**

Mae gan Lywodraeth Cymru bwerau ymyrryd:

- dan adran 22 o **Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004** os yw'n ystyried bod Awdurdod Tân ac Achub yn methu, neu'n debygol o fethu, gweithredu yn unol â'r Fframwaith Cenedlaethol. Mewn achosion o'r fath, byddai adran 23 – Protocol Ymyrryd yn berthnasol;
- dan adran 29 o **Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009** os yw'n ystyried bod Awdurdod Tân ac Achub yn methu, neu mewn perygl o fethu, cydymffurfio â'r Mesur. Ond yn yr holl amgylchiadau, heblaw'r rhai mwyaf eithriadol, ni all Gweinidogion Cymru ond ymyrryd ar ôl iddynt gynnig cymorth gwirfoddol i'r Awdurdod dan adran 28 o'r Mesur.

## YMGYNGHORIADAU:

Pob blwyddyn mae'r Awdurdod yn ceisio barn a sylwadau'r cyhoedd yng Ngogledd Cymru a rhanddeiliaid eraill fel rhan o'i broses i ddatblygu ei gynlluniau ac amcanion strategol.

Mae'r ymgynghoriadau diweddar wedi eu rhestru isod:

| Teitl | Ymgynghoriad | Dyddiad Cyhoeddi | Blwyddyn |
|---|---|---|---|
| Amcanion Gwella ar gyfer 2014/15 gan gynnwys strategaeth ariannol newydd | Hydref 2013 | Mawrth 2014 | 2014/15 |
| Amcanion Gwella ar gyfer 2015/16 | Hydref 2014 | Mawrth 2015 | 2015/16 |
| Amcanion Gwella ar gyfer 2016/17 | Hydref 2015 | Mawrth 2016 | 2016/17 |
| Amcanion Gwella a Llesiant ar gyfer 2017/18 ac ymlaen | Hydref 2016 | Mawrth 2017 | 2017/18 |
| Amcanion Gwella a Llesiant ar gyfer 2018/19 ac ymlaen | Hydref 2017 | Mawrth 2018 | 2018/19 |
| Amcanion Gwella a Llesiant ar gyfer 2019/20 ac ymlaen | Haf / Hydref 2018 | Mawrth 2019 | 2019/20 |
| Amcanion Gwella a Llesiant ar gyfer 2020/21 ymlaen (Strategaeth Amgylcheddol newydd) | Haf/Hydref 2019 | Mawrth 2020 | 2020/21 |

# GEIRFA/DIFFINIADAU

- **Tanau**
  Mae pob tân yn dod o fewn un o dri chategori, sef prif danau, tanau eilaidd neu danau simnai.

- **Prif Danau**
  Dyma danau nad ydynt yn danau simneiau ac sydd yn unrhyw fath o adeiladu (ac eithrio adfail), cerbydau, carafanau ac ôl-gerbydau, storfeydd y tu allan, gweithfeydd a pheiriannau, eiddo amaethyddol a choedwigoedd, ac adeileddau eraill y tu allan, megis pontydd, blychau postio, twneli ayyb.

  Mae tanau yn unrhyw le yn brif danau os oes anafusion, achub neu ddianc, hefyd danau yn unrhyw le lle aeth pum neu ragor o beiriannau tân atynt.

- **Tanau Eilaidd**
  Tanau eilaidd yw tanau nad ydynt yn rhai simnai nac yn brif danau. Nid oes anafusion, achub neu ddianc, mewn tanau eilaidd, a bydd pedair neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt.

  Fel arfer, tanau eilaidd yw'r rhai sy'n digwydd mewn lleoliadau megis tir agored, coed unigol, ffensys, polion telegraff, sbwriel a chynwysyddion sbwriel (ond nid banciau papur, a fyddai'n cael eu hystyried - yn yr un modd ag eiddo amaethyddol neu goedwigoedd - yn brif dân), dodrefn y tu allan, goleuadau traffig ayyb.

- **Tanau Simnai**
  Dyma danau mewn adeiladau sydd wedi eu meddiannu, lle mae'r tân wedi ei gyfyngu i'r simnai ei hun, hyd yn oed os oes gwres neu ddifrod oherwydd mwg yn ymestyn y tu hwnt i'r simnai ei hun.

  Nid oes anafusion, achub neu ddianc anafusion mewn tanau simnai, a bydd pedair neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt.

- **Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig**
  Dyma ddigwyddiadau lle nad oes tân, a lle mae angen peiriant neu swyddog, ac maent yn cynnwys:

  - Argyfyngau lleol e.e. llifogydd, digwyddiadau traffig ar y ffyrdd, achub pobl, gwneud sefyllfa 'yn ddiogel' ayyb
  - Trychinebau mawr;
  - Digwyddiadau domestig e.e. dwr yn gollwng, pobl wedi eu cloi i mewn neu allan ayyb
  - Trefniadau o flaen llaw i fynd i ddigwyddiadau, a allai gynnwys darparu cyngor ac archwiliadau.

- **Marwolaethau oherwydd Tân (yn gysylltiedig â thân)**
  Pan fydd unigolyn yn marw o ganlyniad i dân hyd yn oed os ydynt yn marw wythnosau neu fisoedd wedi'r tân. Ceir achosion prin hefyd pan y daw hi'n amlwg nad y tân a achosodd eu marwolaeth. Felly mae'r ffigurau hyn yn cael eu diwygio o hyd.

- **Anafiadau oherwydd Tân**
  Er cysondeb, ers Ebrill 2009 drwy'r Deyrnas Unedig, caiff anafusion tân eu cofnodi dan bedwar categori difrifoldeb:

  i) aeth y dioddefwr i'r ysbyty, mae anafiadau'n ymddangos yn ddifrifol;

  ii) aeth y dioddefwr i'r ysbyty, mae'r anafiadau'n ymddangos yn fach;

  iii) rhoddwyd cymorth cyntaf i'r dioddefwr yn y fan a'r lle yn unig, ac nid oedd angen rhagor o driniaeth;

  iv) argymhellwyd archwiliad rhagofalus – aeth y person i'r ysbyty neu cafodd gyngor i weld meddyg rhag ofn, ond nid oedd unrhyw anaf neu drallod amlwg.

- **Galwad ddiangen (canllaw cyffredinol**
  Pan fo'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn mynd i leoliad lle credir bod digwyddiad, ond o gyrraedd gwelir nad oes digwyddiad o'r fath yn bodoli neu wedi bodoli.

  Sylwer: os bydd y peiriant yn cael 'ei droi'n ôl' gan yr Ystafell Reoli cyn cyrraedd y digwyddiad, ni chyfrifir ei fod wedi mynd yno, ac nid oes angen adrodd yn ei gylch.

- **Galwadau diangen – Maleisus**
  Dyma alwadau a wneir gyda'r bwriad o gael y Gwasanaeth Tân ac Achub i fynd i ddigwyddiad nad yw'n bodoli, gan gynnwys rhai bwriadol a lle amheuir eu bod yn faleisus.

- **Galwadau diangen - Didwyll**
  Dyma alwadau a wneir yn ddidwyll pan gredir bod y Gwasanaeth Tân ac Achub yn wir yn mynd at dân neu ddigwyddiad gwasanaeth arbennig.

- **Galwadau diangen – Larymau tân awtomatig**
  Dyma alwadau a ddaw gan larwm tân ac offer diffodd tân. Maent yn cynnwys larwm yn canu trwy ddamwain neu pan fo larwm yn canu a rhywun yn galw'r Gwasanaeth Tân ac Achub fel mater o drefn oherwydd trefniant sefydlog, h.y. heb 'benderfyniad' (er enghraifft gan ganolfan alwadau diogelwch neu rywun wedi ei enwebu o fewn sefydliad).

# FERSIYNAU ERAILL

**Mae fersiynau eraill o'r ddogfen hon ar gael:**

- ar bapur ac yn electronig;
- yn Gymraeg ac yn Saesneg;
- taflen gryno o'r prif bwyntiau;
- fformatau hygyrch drwy ein gwefan.

**Manylion Cyswllt:**

Cyfeiriad postio: Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC)
Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub
Ffordd Salesbury
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 0JJ

Ffôn: 01745 535 250

Gwefan: www.gwastan-gogcymru.org.uk

**Gallwch chi ein dilyn ni hefyd ar:**

Twitter @northwalesfire

www.facebook.com/northwalesfireservice

**GWAHODDIAD I GYFRANNU AT WELLA EIN GWASANAETHAU**

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru bob amser yn chwilio am ffyrdd o wella ei weithrediadau a'r modd mae'n darparu gwasanaethau. Drwy fynd ati'n rheolaidd i gyhoeddi gwybodaeth sy'n ystyrlon, ein gobaith yw ennyn mwy a mwy o gysylltiad â'r bobl a'r cymunedau sy'n dibynnu ar ein gwasanaethau.

Felly, os oes gennych chi sylwadau am yr Asesiad hwn, neu am ffyrdd posibl o wella ein Hasesiad Perfformiad Blynyddol, bydden ni'n falch o glywed gennych chi.